# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Iau, 11 Ionawr 2024

s

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Rheoli Datblygu yn hybrid/Siambr y Cyngor - Penmorfa, Dydd Mercher, 17 Ionawr 2024 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Materion Personol**

**3. Datgelu buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu**

**4. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2023 (Tudalennau 3 - 6)**

**5. Ystyried ceisiadau cynllunio a ohiriwyd mewn Cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor (Tudalennau 7 - 8)**

**6. Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysebion a Datblygu (Tudalennau 9 - 44)**

**7. Ceisiadau Cynllunio y deliwyd â hwy o dan awdurdod dirprwyedig (Tudalennau 45 - 54)**

**8. Apeliadau (Tudalennau 55 - 70)**

**9. Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

Cofnodion Cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd ar **Ddydd Mercher, 13 Rhagfyr 2023**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Rhodri Davies (Cadeirydd) y Cynghorwyr, Marc Davies, Meirion Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Raymond Evans, Rhodri Evans, Hugh Hughes, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Chris James, Mark Strong a Carl Worrall

**Hefyd yn bresennol**: Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio, Mrs Catrin Newbold – Rheolwr Gwasanaethau (Rheoli Datblygiad),Mr Jonathan Eirug- Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – Gogledd, Mrs Patricia Armstrong- Rheolwr Corfforaethol- Gwasanaethau Cyfreithiol, Mrs Sian Holder- Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu– De, Mr Sam Pugh- Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu – De, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol– Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Dana Jones, Swyddog Democrataidd a Safonau a Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Cefnogi Craffu

(10:00am-11:55am)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Sian Maehrlein am nad oedd yn medru mynychu'r cyfarfod.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Rhodri Evans am nad oedd yn medru mynychu'r cyfarfod gan ei fod ar gyfrifoldebau eraill dros y Cyngor; byddai'n ymuno â'r cyfarfod unwaith y byddai'r cyfarfod hwnnw yn gorffen.

**2 Datgan Buddiant Personol a /neu Buddiannau sy'n Rhagfarnu**

Gwnaeth y Cynghorydd Rhodri Davies ddatgan buddiant personol ac sy'n rhagfarnu yng nghais A230390 ac fe gaiff yr eitem ei chadeirio gan yr is-gadeirydd, Y Cynghorydd Ifan Davies.

Gwnaeth y Cynghorydd Maldwyn Lewis ddatgan buddiant personol ac sy'n rhagfarnu yng Nghais A230474.

Gwnaeth Dana Jones, Swyddog Democrataidd a Safonau ddatgan buddiant personol ac sy'n rhagfarnu yng Ngheisiadau A230434 a A210308, ac fe wnaeth Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Cefnogi Craffu wneud y cofnodion ar gyfer yr eitemau hyn.

**3 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2023**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod Cofnodion y Cyfarfod ar 8 Tachwedd 2023 yn gofnod cywir.

**Materion yn Codi**

Dim.

**5 Ceisiadau Cynllunio a ohiriwyd yng Nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor**
Dim.

---

**6 Ceisiadau Statudol, Llywodraeth Leol, Hysbysiadau a Datblygu**
Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros yr Economi ac Adfywio o ran ceisiadau statudol, llywodraeth leol, hysbysiadau a datblygu:-

Gwnaeth Mr Rhys ap Dylan (Asiant) annerch y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn weithredol ar gyfer Aelodau a'r Cyhoedd yn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

A230434 Codi annedd fforddiadwy, tir yn Allt y Bryn, Llanarth

**CYMERADWYO**'r cais yn ddibynnol ar amodau a chytundeb Adran 106 ar gyfer annedd fforddiadwy.

---

Gwnaeth Mr Rhys ap Dylan (Asiant) annerch y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn weithredol ar gyfer Aelodau a'r Cyhoedd yn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

A210308 datblygiad preswyl 3 annedd, gan gynnwys y Ficerdy newydd, tir gyferbyn â'r Ficerdy, Llanarth.

**CYMERADWYO'**r cais yn ddibynnol ar amodau a chytundeb Adran 106 ar gyfer darparu'r byngalo sydd wedi'i gymeradwyo yn y cais cynllunio A230434 i fod fel uned fforddiadwy barhaol, ac iddo gael ei gwblhau ac er mwyn iddo gael ei gwblhau'n ymarferol cyn meddiannu'r ail annedd ar y farchnad agored.

---

Anerchodd Mr Geraint John (Asiant) y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd yn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu

A230223 Codi Unedau Diwydiannol gyda Masnach Cownter. Defnydd B8, Cyn Depo Nwy Gwres Stad Ddiwydiannol Glanyrafon, Llanbadarn Fawr Aberystwyth

**CYMERADWYO**'r cais yn ddibynol ar amodau.

Roedd Aelodau o'r farm y gallai'r cais gael ei gymeradwyo am y rhesymau canlynol:

- y tebygolrwydd o lifogydd ar y safle yn isel
- roedd amddiffynfeydd mewn lle, ond roedd angen eu diweddaru gan fod y data model a ddefnyddiwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi'i selio ar ffigyrau o 2013, sydd bellach yn annheg
- dylai Cyfoeth Naturiol Cymru wella'r amddiffynfeydd llifogydd presennol
- roedd hwn yn safle cae brown
- mae'r safle hwn wedi'i letya yn flaenorol fel uned ddiwydiannol
- cafwyd budd economaidd cytbwys wrth gymeradwyo'r cais ar ôl clywed yr holl dystiolaeth a ddarparwyd gan yr asiant

---

Anerchodd Mr Richard Rees (Ymgeisydd) y Pwyllgor yn unol â'r weithdrefn weithredol ar gyfer Aelodau'r Cyhoedd yn annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu

A230265 Menter wledig arfaethedig preswyl i gynnwys newidiadau i fynedfa bresennol cae a gosod gwaith trin gwastraff ar safle'r annedd flaenorol a elwir yn 'Tŷ Newydd'. Tir yn Nhŷ Newydd Tregaron, Tregaron

**CYFEIRIO**'r cais at y Panel Arolygu Safle yn unol â Pharagraff 1 a 5 o Weithdrefn Weithredol fabwysiedig y Cyngor. Bydd y cais hefyd yn cael ei ohirio am fis am gyfnod 'oeri' er mwyn caniatáu amser pellach i ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau.

---

Yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Ifan Davies, oedd cadeirydd y cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol gan fod y Cadeirydd wedi datgan buddiant personol a rhagfarnol yn y cais.

A230390 Dymchwel adeiladau a strwythurau adfeiliedig presennol, paratoi safle a disodli adeilad ffrâm ddur newydd, Fferm Pwllperian, Cwmystwyth, Aberystwyth.

**CYMERADWYO**'r cais yn ddibynnol ar amodau.

---

Darllenwyd llythyr ar ran y Cynghorydd Elizabeth Evans fel yr Aelod Lleol nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

A230474 Estyniad i'r adeilad capel gorffwys presennol i greu ardal weithio fwy a garej i leoli ceir cwmni Cyfarwyddwyr Angladdau Derek Jones, Heol y Frenhines, Aberaeron.

**CYMERADWYO**'r cais yn ddibynnol ar amodau.

---

A230561 Dymchwel arfaethedig yr annedd bresennol ac adeiladu annedd newydd arfaethedig, a'r holl waith cysylltiedig; The Beach House, Cae Dolwen, Aberporth, Aberteifi

Nodi bod y cais  wedi'i **DYNNU**'n ôl o'r agenda gan fod gwybodaeth bellach wedi'i chyflwyno gan yr ymgeisydd yn dilyn cyhoeddi'r agenda, ond nad oedd swyddogion a gwrthwynebwyr wedi cael digon o amser i'w hystyried cyn y cyfarfod.

---

A230652 Adnewyddu Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) gyda ffensys perimedr a llifoleuadau, Canolfan Hamdden Plascrug, Rhodfa Plascrug, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth

**CYMERADWYO**'r cais yn ddibynnol ar amodau.

**7 Ceisiadau Cynllunio sy'n cael eu trin gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio:-**

PENDERFYNWYD nodi'r amserlen o geisiadau cynllunio yr ymdriniwyd yn Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio.

**8  Apeliadau Cynllunio**

Dim wedi'i dderbyn.

**Cadarnhawyd yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024**

**Cadeirydd:-____________________**

**Dyddiad:_______________**

# 1. Gohiriwyd/Deferred


| # | Cyfeirnod y Cais / Application Reference | Dyddiad y derbyniwyd / Received Date | Ymgeisydd / Applicant | Bwriad / Proposal | Lleoliad / Location | Argymhelliad / Recommendation |
|---|---|---|---|---|---|---|

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# 2. Prif Eitemau/Main Items

| # | Cyfeirnod y Cais / Application Reference | Dyddiad y derbyniwyd / Received Date | Ymgeisydd / Applicant | Bwriad / Proposal | Lleoliad / Location | Argymhelliad / Recommendation |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | A220711 | 27-09-2022 | Mr J Ellis-Jones | Full application for residential development comprising 5 x 2-bedroom self-contained apartments | Land adjacent to the Marina, Aberystwyth | Approve Subject to Conditions |
| 2 | A230527 | 21-07-2023 | (TID Holdings Ltd) | Development of 18 flexible use commercial units (Uses B1, B2 and B8 of the Use Classes Order, including trade counters) in the form of two buildings. | Plot C2 Parc Teifi, Cardigan. SA43 1EW | Approve Subject to Conditions |
| 3 | A230561 | 02-08-2023 | Mr P Hodgson | Proposed demolition of existing dwelling and proposed new build of dwelling. And all associated works. | The Beach House, Cae Dolwen, Aberporth, Cardigan. SA43 2DE | Approve Subject to Conditions |

# 2.1. A220711


Groynes
Shingle
6.4m
Boulders
Mean Low Water
Groyne
Mud
Jetty
Navigation Light
(fixed green)
Afon Rheidol
RNLI Station
Post
St David's Wharf
Landing
St David's Wharf Flats
El Sub Sta
Y LANFA
ANGOR
Ramp
Sundown
Awelon
CWRT-YR-ANGOR
Cae Melus
14.0m
Dinas Terrace
DINAS TE
PLAS MOROLWG
15.2m
Min-y-gro
Windover
Pebble
Path
Boat House
PEN-YR-

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais / Application Reference** | A220711 |
| **Derbyniwyd / Received** | 27-09-2022 |
| **Y Bwriad / Proposal** | Full application for residential development comprising 5 x 2-bedroom self-contained apartments |
| **Lleoliad Safle / Site Location** | Land adjacent to the Marina, Aberystwyth |
| **Math o Gais / Application Type** | Full Planning |
| **Ymgeisydd / Applicant** | Mr J Ellis-Jones, Unit 8 Science Park (private), Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AH |
| **Asiant / Agent** | Mr Oliver Cooper (Geraint John Planning Ltd), Office 16 (house 1, 2nd Floor) The Maltings East Tyndall Street, Cardiff, CF24 5EA |

**Y SAFLE A HANES PERTHNASOL**

Parsel o dir llinellog yw safle'r cais, yn union rhwng Fflatiau'r Marina yn y Lanfa, Trefechan a Heol Pen yr Angor a datblygiad Maes y Môr. I'r de-orllewin y mae llety fflatiau Glanfa Dewi. Defnyddir y safle ar gyfer parcio yn bennaf, a nodwedd ohono yw'r bancyn serth o graig tua'r dwyrain. Blociau fflatiau dwysedd uchel yw'r datblygiadau preswyl cyfagos, o dri neu bedwar llawr yn bennaf. Mae parsel o dir ar wahân, wrth y man troi ger fflatiau'r Lanfa, hefyd yn rhan o safle'r cais.

Mae sawl caniatâd cynllunio yn perthyn i safle'r cais, fel a ganlyn:-
840624 Codi pont gerdded; gwesty; uned gwerthu offer hwylio; fflatiau; gweithdai a lle parcio (Amlinellol). 22/11/84
930475 Tafarn a bwyty; siopau, caffi a swyddfeydd; fflatiau; lleiniau adeiladu; lle parcio. (Amlinellol) 15/09/93
940385 65 o fflatiau ac 14 o dai (Materion a gadwyd yn ôl). 21/08/94
980994 16 o fflatiau (Llawn) 05/02/99

Cyflwynwyd cais cynllunio llawn ar gyfer datblygiad preswyl ar y safle i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn Chwefror 2021 (A210143). Gwrthodwyd y cais ym mis Medi 2021 ar ddwy sail, sef bod uchder y cynnig ddim yn cyd-fynd â chymeriad a strydlun y cyffiniau ac felly'n gwrthdaro â pholisi DM06 o'r CDLl; a bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi methu ag asesu'r cais yn llawn mewn perthynas â'r trefniadau priffyrdd a pharcio, yr effaith bosib ar Ardal Cadwraeth Forol Gorllewin Cymru, ac o ran y pryderon am lifogydd.

**MANYLION Y DATBLYGIAD**

Gofynnir am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer datblygiad preswyl o 5 fflat mewn un bloc, addasu'r mynediad presennol i gerbydau, a chyfleusterau parcio ceir cysylltiedig; gwelliannau i'r brifford; lle i barcio beiciau a lle cymunedol ar y cyd.

Mae'r prif adeilad yn cynnwys strwythur o saith llawr fydd yn cynnwys pum fflat o ddwy ystafell wely. Bydd y llawr gwaelod yn darparu mynediad i'r adeilad a bydd y brif ddarpariaeth breswyl ar loriau 1 - 5. Bydd y chweched llawr yn cynnwys grisiau a lifft ac yn darparu mynediad i do fflat yr adeilad. O'r llawr i'r top, mae'r adeilad oddeutu 19.7m o uchder.

Ar wahân i'r fflat llawr cyntaf, mae cynllun mewnol fflatiau 2 i 5 yn union yr un fath â'i gilydd. Mae pob fflat yn darparu dwy ystafell wely, cegin, stydi, lolfa a lle bwyta ynghyd â balconi tua'r de-orllewin.

Mae'r adeilad o ddyluniad cyfoes ac mae'n defnyddio llawer o wydr, cladin metel, brics a rendro. Bwriedir codi murlun ar brif wyneb y llawr gwaelod.

Darperir y prif fynediad ar lefel y ddaear ar hyd Ffordd y Lanfa gan ddefnyddio man troi presennol ynghyd â phum lle parcio newydd a gynigir. Bydd y lle parcio presennol (ar hyd y Lanfa) yn parhau o dan yr adeilad arfaethedig, gan fod y strwythur wedi'i gantilefru ar lefel y llawr cyntaf dros ben y llefydd parcio.

**POLISÏAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL**

Mae'r polisïau canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu ar y cais hwn:

DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
DM11 Dylunio ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd
DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy

DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
DM18 Ardaloedd Tirwedd Arbennig
LU04 Diwallu Amrywiaeth o Anghenion Tai
LU05 Sicrhau y Cyflenwir Datblygiadau Tai
S01 Twf Cynaliadwy
S02 Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol
S05 Tai Fforddiadwy
Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 11, Chwefror 2021)

**YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL**

**DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998**

Mae Adran 17(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol y swyddogaethau hyn ar droseddau ac anhrefn o fewn ei ardal, ac i wneud popeth y gall yn rhesymol i atal troseddau ac anhrefn. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol neu annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

**DEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchodedig', sef oed; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

• gwaredu neu leihau'r anfanteision y mae pobl yn eu dioddef yn sgil eu nodweddion gwarchodedig;
• cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl sy'n perthyn i grwpiau gwarchodedig pan fydd yr anghenion hyn yn wahanol i anghenion pobl eraill;
• annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel.

Rhoddwyd sylw dyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn peri goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchodedig nac yn cael effaith arnynt sy'n fwy nag ar unrhyw berson arall.

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i nodir yn Neddf 2015. Wrth roi'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain.

**YMATEBION I'R YMGYNGHORI**

Cyfoeth Naturiol Cymru - Dim gwrthwynebiad, yn ddibynnol ar amodau.

Ceredigion HPW - Dim gwrthwynebiad, yn ddibynnol ar amodau.

Cyngor Tref Aberystwyth - Gwrthwynebu'r datblygiad yn gryf ar sail ei uchder a'i faint; ei fod yn fater o orddatblygu'r safle; bod y dyluniad ddim yn cyd-fynd ag adeiladau cyfagos; bod gwrthwynebiad cryf yn lleol; colli tir glas cymunedol; mater perchnogaeth tir; perygl llifogydd; adeilad anghynaliadwy; darpariaeth fforddiadwy ar gael mewn llefydd eraill.

Dŵr Cymru - Dim gwrthwynebiad, yn ddibynnol ar amodau.

Draenio Ceredigion - Sylwadau.

Cafwyd 54 o sylwadau gan drydydd partïon yn gwrthwynebu'r datblygiad ar y seiliau canlynol:-
- bydd y datblygiad yn difetha'r tirwedd, a digon o dai gwag yn y dref;
- colli llefydd parcio a phryder am ddiogelwch ar y ffordd;
- cais heb ei hysbysebu'n ddigonol;
- bydd yr adeilad yn rhy dal;
- bydd y datblygiad yn tanseilio'r clogwyn;

- dim angen am fflatiau moethus anfforddiadwy;
- gormod o ddatblygiadau tai yn digwydd yn gyfagos;
- bod y datblygiad arfaethedig ddim yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal gyfagos;
- colli amwynder a materion preifatrwydd i'r adeiladau cyfagos;
- datblygu ar ben ei gilydd / gorddatblygu;
- carbwncl mawr o adeilad / dolur llygad / ddim yn gweddu â chymeriad yr ardal;
- amharu o achos y gwaith adeiladu;
- heb gyflwyno hysbysiad i'r perchnogion tir perthnasol;
- effaith wael ar dreftadaeth ac ecoleg;
- llefydd parcio ychwanegol yn mynd â'r gofod cymunedol ar gyfer y Lanfa;
- colli golygfeydd;
- pryder am lifogydd;
- colli golau;
- pryderon archeolegol;
- gormod o ddwysedd tai yn Nhrefechan eisoes.

**CASGLIAD**

Dywed Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004: "Os rhoddir ystyriaeth i'r cynllun datblygu er mwyn gwneud penderfyniad o dan y Deddfau Cynllunio, bydd yn rhaid i'r penderfyniad hwnnw fod yn unol â'r cynllun oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall."

Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn cydnabod rôl Aberystwyth fel ardal dwf ranbarthol ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru.

Mae Polisi S01 y CDLl yn ymwneud â Thwf Cynaliadwy ac mae'n nodi bod angen datblygu tua 6,544 o anheddau erbyn diwedd cyfnod y cynllun yn 2022. Strategaeth y CDLl yw y bydd 51% o ddatblygiadau tai newydd ar draws y Sir dros gyfnod y cynllun yn digwydd yn y Canolfannau Gwasanaethau Trefol, 24% yn y Canolfannau Gwasanaethau Gwledig a 25% mewn aneddiadau a lleoliadau eraill (gan gynnwys aneddiadau cyswllt).

Saif safle'r cais o fewn ffin ddiffiniedig anheddiad Aberystwyth, sy'n cael ei adnabod fel Canolfan Gwasanaethau Trefol yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

Mae Polisi S02 y CDLl yn ymwneud â 'Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol' ac mae hyn yn mynnu bod pob datblygiad o fewn terfynau diffiniedig y Canolfannau Gwasanaethau Trefol. Yn Aberystwyth, mae gofyn i ddatblygiad gyfrannu at arwyddocâd cenedlaethol y dref fel canolfan strategol Canolbarth Cymru, a chefnogi amcanion a chynlluniau gweithredu presennol parthed ei Statws Adfywio Strategol.

Yn ôl y CDLl, cyfanswm y gofyniad tai sydd angen eu cyflawni yn ardal Aberystwyth yw 1877. Mae ffigurau monitro tai diweddaraf (Ebrill 2023) y CDLl yn dangos mai dim ond 647 o anheddau sydd wedi'u cwblhau yn y Ganolfan Gwasanaethau Trefol gyda chaniatâd ar y gweill ar gyfer 230 o anheddau pellach. Felly, gan gyfrif am dai a ddymchwelir ac a addasir (-71), mae lle i 1071 o anheddau yn rhagor yn Aberystwyth. O'r herwydd, ystyrir y byddai'r cynigion yn cydymffurfio â Pholisïau S01 a S02 y CDLl a bod yr egwyddor o ddatblygu yn cael ei dderbyn.

Mae polisi DM01 - sy'n rheoli effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Gymraeg - yn ei gwneud yn ofynnol darparu Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol mewn perthynas â datblygiadau tai mewn canolfannau gwasanaethau lle byddai tai yn cael eu cyflawni yn gyflymach nag y nodir yn natganiad y Grŵp Anheddiad.

Ni fyddai'r ddarpariaeth tai arfaethedig yn cael ei chyflawni yn gyflymach nag y nodir yn natganiad y Grŵp Anheddiad, ac felly bernir y gellir cyflawni'r datblygiad heb effeithio'n negyddol ar broffil Cymunedol ac Ieithyddol Aberystwyth.

Mae Polisi S05 y CDLl, sy'n ymdrin â Thai Fforddiadwy, yn ei gwneud yn ofynnol i bob datblygiad preswyl ddarparu tai fforddiadwy ar y safle neu gyfrannu tuag at ddarpariaeth tai fforddiadwy. Er bod cais cysylltiedig mewn rhan arall o'r dref yn ceisio darparu'r holl ofynion tai fforddiadwy yn lle'r cynllun hwn, tynnwyd y cais yna yn ôl ac felly, er mwyn cydymffurfio â'r polisi, roedd angen darparu tai fforddiadwy fel rhan o'r cynllun hwn. Mae'r cynnig yn awr yn cynnig un fflat fel uned fforddiadwy ac yn bodloni'r gofyniad tai fforddiadwy i'r graddau bod 20% o'r cynllun arfaethedig yn fforddiadwy gan fodloni polisi S05.

Mae Polisi DM06 yn ceisio diogelu amwynder preswylwyr y tai cyfagos rhag niwed sylweddol mewn perthynas â phreifatrwydd, sŵn a golygon. Bydd yr adeilad arfaethedig yn sefyll y tu cefn i fflatiau'r Marina ac i'r gogledd o fflatiau Dewi, ond mewn llinell â'r unedau hynny. Ar dir uwch ac i'r dwyrain y mae adeilad newydd Maes y Môr. Nid yw'r adeilad arfaethedig yn edrych dros unrhyw adeilad cyfagos yn uniongyrchol ac mae'r ffenestri ar dalcen Fflatiau Dewi yn rhai eilaidd. Mae'r mannau cyffredin ar ochr Fflatiau Dewi ac adeilad y Lanfa eisoes yn barth cyhoeddus. O'r herwydd, bernir na fyddai effaith ar amwynder yr adeiladau presennol sydd yn y cyffiniau.

DM06 yw polisi’r CDLl o ran ‘creu lle’ ac mae'n nodi y dylai Datblygiad ystyried yn llawn, a chyfrannu'n gadarnhaol, at gyd-destun ei leoliad a'i amgylchedd. Dylai'r datblygiad ddangos dealltwriaeth glir o egwyddorion dylunio a’r cyd-destun ffisegol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn lleol. Dylai hyrwyddo dylunio arloesol gan ystyried y cymeriad a’r dreftadaeth ddiwylliannol leol o ran ffurf, dyluniad a deunydd. Dylai cynigion datblygu hefyd ategu’r safle a’i amgylchedd o safbwynt y cyd-destun, a pharchu’r golygfeydd i mewn i’r safle ac allan ohono, a chreu ffurf sy’n cydweddu â graddfa, uchder a maintioli’r ffurf adeiledig sydd yno’n barod.

Mae canllaw cynllunio atodol mabwysiedig y cyngor, Dylunio a’r Amgylchedd Adeiledig, yn rhoi DM06 mewn grym ac yn rhoi arweiniad ar y materion y mae angen eu hystyried wrth ddatblygu amrywiol adeiladau. Mae Adran 2 o'r canllaw cynllunio atodol yn ystyried sut y dylai ceisiadau ymateb i gymeriad Ceredigion. Mae Ceredigion yn ffodus o gael hanes cyfoethog, sy'n aml yn cael ei adlewyrchu mewn nifer o'i adeiladau a'i leoedd. Er mwyn gwella ansawdd amgylchedd adeiledig Ceredigion, mae'n hanfodol bod datblygiad newydd yn seiliedig ar asesiad trylwyr o’r cymeriad lleol.

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad ar yr elfennau perthnasol i'w hystyried wrth ddylunio cynnig sy'n ymateb i gymeriad lleol Ceredigion. Mae angen ystyried y cydweddu gyda dwy o’r pedair prif elfen.

Bernir bod maint a dyluniad y datblygiad arfaethedig yn cyd-fynd â ffurf adeiledig yr ardal. Yn groes i'r cais blaenorol, mae'r cynllun hwn wedi gweld yr adeilad yn gostwng uchder gan 9.2m ac mae'n llawer mwy cydnaws â'r strydlun. Yn ogystal, nid yw'r deunyddiau a ddefnyddir yn niweidiol i gymeriad yr ardal.

Mae polisi DM03 yn cynghori y dylai datblygiad gael ei leoli mewn man sy’n lleihau’r angen i deithio’n ormodol. Hefyd mae polisi DM03 yn nodi y dylid darparu lle parcio fel rhan o’r cynigion datblygu, yn unol â chanllaw cynllunio atodol Safonau Parcio Ceredigion.

Byddai mynediad i gerbydau i'r datblygiad arfaethedig ar hyd y ffordd fynediad sy'n gwasanaethu adeiladau'r Lanfa. Darperir cyfanswm o 5 lle parcio newydd i wasanaethu'r datblygiad, sy'n cael ei ystyried yn unol â'r safonau parcio mabwysiedig fel y nodir yn y canllaw atodol, sef darparu rhwng 0.5 ac 1 lle parcio car i bob fflat. Derbyniwyd cadarnhad bod gan y datblygwr fynediad i'r mannau parcio arfaethedig ac nad yw'n effeithio ar y gofod amwynder a ddynodwyd ar gyfer adeiladau’r Lanfa.

Ymgynghorwyd â'r Awdurdod Priffyrdd Lleol ar y cais ac nid yw'n cynnig gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig, yn amodol.

Mae polisïau DM14 a DM15 o'r Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a diogelu safleoedd pwysig gwarchodedig. Yn achos safleoedd, cynefinoedd neu rywogaethau a warchodir, naill ai'n uniongyrchol, yn anuniongyrchol neu ar y cyd, rhoddir caniatâd dim ond os gellir dangos bod y cynnig yn cyfrannu at amddiffyn, gwella neu reoli'r safle, cynefin neu rywogaethau, neu yn ôl amgylchiadau penodol eraill a nodir yn y polisi. Mae canllaw cynllunio atodol y Cyngor ar fioamrywiaeth yn darparu canllawiau ar asesu effaith datblygiad ar safleoedd dynodedig neu rywogaethau a warchodir.

Cynhaliwyd Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol gan gynnwys arolwg estynedig o’r cynefin a oedd yn nodi bod y safle o werth ecolegol isel ac yn cynnal ond ychydig o rywogaethau blodeuol. Er hynny, roedd yr Arfarniad yn argymell mesurau lliniaru ac awgrymir bod y rhain yn amod fel rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio.

Mae'r safle hefyd yn agos i Ardal Cadwraeth Forol Gorllewin Cymru. Er mwyn lliniaru unrhyw effaith bosib ar nodweddion dynodedig yr Ardal Gadwraeth, cyflwynwyd Cynllun Rheoli Amgylcheddol ar gyfer maes Adeiladu ac roedd Cyfoeth Naturiol Cymru o’r farn ei fod yn dderbyniol. Fodd bynnag, awgrymir y dylid gosod amod sy'n mynnu bod y datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol yn llwyr â'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol, os rhoddir caniatâd cynllunio.

Ystyrir bod safle'r cais ym mharth llifogydd A, fel y dangosir ar Fap Cyngor Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru, ond mae o fewn 4 metr o Barth C2 sydd o fewn amlinelliad perygl llifogydd eithafol, nad yw'n cael ei ddiogelu gan amddiffynfeydd llifogydd ac nad yw'n darparu ar gyfer newid hinsawdd a’r llanw yn y dyfodol.

Cyflwynwyd Asesiad Canlyniadau Llifogydd a chydnabu Cyfoeth Naturiol Cymru fod yr ardaloedd y gellir byw ynddynt yn cydymffurfio â TAN15 ond bod anhawster posib o ran mynd a dod o'r maes parcio ceir. O ystyried bod yr ardal barcio gan mwyaf yn estyniad i'r maes parcio presennol a bod y mynediad drwy'r un llwybr ag ar hyn o bryd, ystyrir na fyddai gwerth gwrthwynebu'r cynnig ar y sail honno.

Mae adran gwasanaethau technegol y cyngor ei hun wedi cynghori bod angen cymeradwyaeth SUDs ac wedi rhoi gwybodaeth am sut i leihau'r risg o lifogydd dŵr wyneb. Felly, ystyrir y gellid rheoli'r gwaith o waredu dŵr wyneb drwy broses gymeradwyo System Ddraenio Gynaliadwy, ac felly ni ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn cynyddu'r risg o lifogydd.

I gloi, ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol ac y gellir ei gefnogi. Nid oes gwrthwynebiadau perthnasol i'r cynllun cyffredinol ac argymhellir bod y cais yn cael ei gymeradwyo, yn ddibynnol ar amodau a chyhyd â bod cytundeb Adran 106 yn cael ei gwblhau parthed darparu tai fforddiadwy.

**RHESWM AM EI GYFEIRIO I’R PWYLLGOR:-**

Gofynnodd aelod lleol y ward, y Cynghorydd E Edwards, am i'r cais gael ei gyfeirio i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i'w ystyried am y rhesymau canlynol:

- Ei uchder a'i faint (ei uchder mewn perthynas â'r blociau sydd eisoes ar Y Lanfa yn ogystal â'r heol ym Mhen-yr-Angor);
- Hanes y safle o ran cynllunio – cafodd cais rhif A210143, am ddatblygiad tebyg yn yr ardal, ei wrthod gan y Cyngor;
- Ei fod yn gorddatblygu'r safle;
- Bod y dyluniad ddim yn gydnaws â'r adeiladau cyfagos;
- Gwrthwynebiad lleol cryf;
- Colli tir glas cymunedol (mae tir o'r fath yn brin yn Aberystwyth ac yn yr ardal benodol hon);
- Perygl llifogydd ar y safle.

**ARGYMHELLIAD:**

GOHIRIO'R cais hyd nes y cwblheir cytundeb Adran 106 ynghylch darparu tai fforddiadwy, a chymeradwyo'r cais yn ddibynnol ar amodau, unwaith y bydd cytundeb Adran 106 wedi'i wneud.

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais / Application Reference** | A220711 |
| **Derbyniwyd / Received** | 27-09-2022 |
| **Y Bwriad / Proposal** | Full application for residential development comprising 5 x 2-bedroom self-contained apartments |
| **Lleoliad Safle / Site Location** | Land adjacent to the Marina, Aberystwyth |
| **Math o Gais / Application Type** | Full Planning |
| **Ymgeisydd / Applicant** | Mr J Ellis-Jones, Unit 8 Science Park (private), Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AH |
| **Asiant / Agent** | Mr Oliver Cooper (Geraint John Planning Ltd), Office 16 (house 1, 2nd Floor) The Maltings East Tyndall Street, Cardiff, CF24 5EA |

**THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY**

The application site is a linear parcel of land directly between the Marina Flats at the Lanfa, Trefechan and the Pen yr Angor Road and the Maes y Môr development. To the south-west is the flat accommodation of St David's Wharf Flats. The site is primarily used for parking and is characterised by a steep rock bank to the east. Residential development in the immediate area consist of high density apartment block predominantly of 3/4 storeys. A detached parcel of land directly adjoining the turning head by the Lanfa flats is also part of the application site.

There is a number of planning permissions relevant to the application site as follows:-
840624 Erection of footbridge; hotel; chandlery retail unit; apartments; workshops and parking (Outline). 22/11/84
930475 Public house and restaurant; shops, cafe and offices; apartments; building plots; parking. (Outline) 15/09/93
940385 65 Flats and 14 houses (Reserved Matters). 21/08/94
980994 16 flats (Full) 05/02/99

A full planning application for the residential development of this site was submitted to the LPA in February 2021 (A210143). The application was refused in September 2021 on two grounds, namely that the height of the proposal was out of character with its surroundings and the streetscene and in conflict with policy DM06 of the LDP; and that the LPA had been unable to fully assess the application in relation to highway and parking arrangements; the potential impact on the West Wales Marine SAC and in respect of flooding concerns.

**DETAILS OF DEVELOPMENT**

Full planning permission is sought for the residential development of 5 flats in one block, the rationalisation of an existing vehicular access and associated car parking facilities; highway improvements; cycle parking provision and shared communal space.

The main building comprises of a seven storey structure which seeks to house five 2 bedroomed apartments. The ground floor will provide access to the building with the main residential provision being catered for on floors 1 - 5 with the sixth floor being the stairwell / lift area providing access to the flat roof area of the building. From ground to top, the building is approx 19.7m tall.

Apart from the first floor flat the internal layout of flats 2 - 5 are identical although all flats provide two bedrooms, kitchen, lounge and dining  study together with a balony area on the south-west elevation.

The building is of contemporary design and utilises a high area of glass, metal cladding, brickwork and render. A mural is proposed to be erected on the ground floor's main elevation.

Primary access is achieved at ground level along Y Lanfa Road which utilises an existing turning head along with 5 newly proposed parking spaces. The existing parking under the proposed building (along y Lanfa) will remain, as the structure is cantilevered over the spaces at first floor level.

**RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE**

These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

DM06 High Quality Design and Placemaking
DM11 Designing for Climate Change
DM13 Sustainable Drainage Systems
DM14 Nature Conservation and Ecological Connectivity
DM15 Local Biodiversity Conservation
DM17 General Landscape
DM18 Special Landscape Areas (SLAs)
LU04 Meeting a Range of Housing Needs
LU05 Securing the Delivery of Housing Development
S01 Sustainable Growth
S02 Development in Urban Service Centres (USCs)
S05 Affordable Housing
Future Wales: The National Plan 2040
Planning Policy Wales (edition 11, February 2021)

**OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS**

**CRIME AND DISORDER ACT 1998**

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

**EQUALITY ACT 2010**

The Equality Act 2010 identifies a number of ‘protected characteristics’, namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

• removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
• taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
• encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

**WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015**

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council’s duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

**CONSULTATION RESPONSES**

NRW - No objection STC

Ceredigion HPW - No objection STC

Cyngor Tref Aberystwyth Town Council - Strongly objects the development on grounds of its height and size; it represents over development of the site; the design is not in keeping with other neighbouring buildings; strong local objection; loss of green community land; the issue of land ownership; flood risk; unsustainable building; affordable provision located elsewhere.

DC/WW - No objection STC

Ceredigion Drainage - Comments

54 third party representations received objecting the proposal on the following grounds:-
- development will destroy landscape when there are plenty of empty dwellings in the town;
- loss of parking spaces and concern over highway safety;

- application not publicised adequately;
- building will be too tall;
- development will undermine cliff;
- no need for luxury unaffordable flats;
- too much housing development going on in immediate area;
- proposed development out of keeping and character with immediate area;
- loss of amenity and privacy issues to adjoining buildings;
- cramped development / over-development;
- giant carbuncle / eyesore / out of character with immediate area;
- construction disruption;
- no notice served on relevant landowners;
- detrimental impact on heritage and ecology;
- additional parking spaces will take up over communal space for Y Lanfa;
- loss of views;
- detrimental on impact;
- concern over flooding;
- loss of light;
- archaeological concerns;
- housing density in Trefechan already too high.

**CONCLUSION**

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

National planning policy recognises the role of Aberystwyth as a regional growth area for the Mid Wales region.

Policy S01 of the LDP relates to Sustainable Growth and this identifies that approximately 6,544 dwellings are required to be developed by the end of the plan period in 2022 The Strategy of the LDP is that over the plan period 51% of new housing development across the County will occur in the Urban Service Centres, 24% in the Rural Service Centres and 25% in other settlements and locations (including linked settlements).

The application site lies within the defined settlement boundary of Aberystwyth, which is identified as an Urban Service Centre (USC) within the Local Development Plan (LDP).

Policy S02 of the LDP relates to 'Development in Urban Service Centres' and this requires that all development is within the defined limits of the Urban Service Centres. In Aberystwyth, development is also required to contribute to its national significance and its role as the strategic centre for Mid Wales and Supports current objectives and action plans relating to its Strategic Regeneration Status.

The total requirement for housing delivery within the Aberystwyth as set out in the LDP is 1877. The latest LDP housing monitoring figures (April 2023) shows that only 647 dwellings have been completed in the Urban Service Centre with extant permission for a further 230 dwellings. Therefore, accounting for demolitions and conversions (-71) there is capacity for a further 1071 dwellings in Aberystwyth. As such, it is considered that the proposals would comply with Policies S01 and S02 of the LDP and the principle of development is accepted.

Policy DM01 managing the impacts of Development on Communities and the Welsh Language Requires a Community and Linguistic Impact Assessment (CLIA) to be provided in respect of housing developments within service centres where delivery would come forward at a rate faster than that referenced in the Settlement Group Statement.

The proposed housing delivery would not come forward at a rate faster than that referenced in the Settlement Group Statement, and as such it is considered that the development can be delivered without negatively impacting the Community and Linguistic profile of Aberystwyth.

Policy S05 of the LDP which deals with Affordable Housing requires all residential development to provide onsite affordable housing or a contribution towards affordable housing provision. Although an associated application in another part of the town was looking to provide all of the affordable housing requirement in lieu of this scheme, that application was withdrawn and as such, in order to comply with policy, an affordable housing provision was required as part of this scheme. The proposal now looks to accommodate one of the flats as an affordable unit which would meet the relevant affordable housing requirement to the tune of 20% of the proposed scheme and therefore satisfies policy S05.

Policy DM06 seeks to protect the amenity of occupiers of nearby properties from significant harm in relation to privacy, noise and outlook. The proposed building is to be located to the rear of the Marina flats and to the north of the St Davids flats

albeit in line with those units. On higher ground and to the east is the newly constructed building of Maes y Môr. The proposed building does not directly overlook any neighbouring building and fenestration on the gable end of St Davids Flats are secondary windows. The communal areas to the side of St Davids Flats and the Lanfa building are already in the public domain. As such it is considered that ther would not be any impact on the amenities of existing buildings in the vicinity.

DM06 is the place making policy of the LDP and states that Development should have full regard, and positively contribute to the context of its location and surroundings. Development should reflect a clear understanding of design principles, the local physical, social, economic and environmental context and should promote innovative design whilst having regard to local distinctiveness and cultural heritage in terms of form, design and material. Development proposals should also complement the site and its surroundings in terms of layout, respecting views into and out of the site, producing a cohesive form in relation to the scale, height and proportion of existing built form.

The councils adopted Design and Built Environment SPG gives effect to DM06 and provides guidance on the issues that need to be considered when developing various buildings. Section 2 of the SPG considers how proposals should respond to Ceredigion’s Character. Ceredigion is fortunate to have a rich history, which is often reflected in many of its buildings and spaces. In order to improve the quality of Ceredigion’s built environment it is essential that new development is based on a thorough assessment of local character.

The SPG provides guidance on the elements of relevance to consider when designing a proposal which responds to Ceredigion’s local Character with people and connectivity with the existing two of the four main elements to consider.

The scale and design of the proposed development is considered to be compliant with the built form in the area. Contrary to the previous application, this scheme has seen the building reduced in height by 9.2m and is much more in keeping with the streetscene. Additionally, the use of materials are not detrimental to the character of the immediate area.

Policy DM03 advises that development will be located so as to minimise the need to travel. Policy DM03 also sets out that parking provision should be provided as part of development proposals in accordance with the Ceredigion Parking Standards SPG.

Vehicular access to the proposed development would be via the access road serving the Lanfa buildings and a total of 5 new car parking spaces will be provided to serve the development which is considered to accord with the adopted parking standards as set out in the SPG of providing between 0.5 and 1 car parking space per apartment. Confirmation has been received that the developer has access to the proposed parking areas and does not impact designated amenity space reserved for the Lanfa buildings.

The Local Highway Authority have been consulted on the application and offer no objection to the proposed development subject to conditions.

Policies DM14 and DM15 of the Local Development Plan seeks to maintain and enhance biodiversity and safeguard protected important sites. Protected sites, habitats or species either directly, indirectly or in combination will only be permitted where it can be demonstrated that the proposal contributes to the protection, enhancement or positive management or the site, habitat or species or in certain other circumstances set out in the policy. The Council’s SPG on biodiversity provides guidance on assessing the impact of development on designated sites or protected species.

A Preliminary Ecological Appraisal including extended habitat survey was carried out which identified that the site was of low ecological value that support few floral species. Notwithstanding, the PEA did recommend mitigation measures and it is suggested that these are conditioned as part of any planning permission.

The site is also in close proximity to the West Wales Marine Sepcial Area of Conservation. In order to mitigate against any potential impact on the designated features of the SAC a Construction Environmental Management Plan was submitted and deemed acceptable by NRW. However it is suggested that a condition be imposed requiring the development to be undertaken in strict accordance with the CEMP should permission be granted.

The application site is considered to be in flood zone A as shown on NRWs Development Advice Map but is within 4 metres from Zone C2 which is within the extreme flood risk outline, is not protected by flood defences, and does not account for future tidal climate change.

A Flood Consequence Assessment was submitted and NRW acknowledged that the habitable areas was compliant with TAN15 but that there was potentially an issue with the access and egress from the car parking area. Given that the parking area is primarily an extension to the existing parking area and accessed and egressed via the same existing route it is considered that there would be no merit in objecting the proposal on those specific grounds.

The councils own technical services department have advised SUDs approval is required and provide details of how to minimize the risk of surface water flooding. It is therefore considered that surface water disposal could be appropriately

managed by way of the SUDs approval process, as such the proposed development is not considered to increase the risk of flooding.

In conclusion it is considered that the proposal is acceptable and can be supported. There are no material objections to the overall scheme and it is recommended that the application be approved subject to conditions and subject to the completion of a S106 agreement regarding the provision of affordable housing.

**REASON FOR DEFERRAL:**

The application is referred to the Development Management Committee for consideration at the request of the local Ward Member, Cllr E Edwards for the following reasons:-

- Its height and size (both its height relative to the blocks which are already there at Y Lanfa and to the road at Penyrangor);
- The planning history of the site – application number A210143 for a similar development in the area was refused by the Council;
- It represents overdevelopment of the site;
- The design is not in keeping with neighbouring buildings;
- Strong local objection;
- Loss of green community land (such land is rare within Aberystwyth and within the particular area);
- The risk of flooding at the site.

**RECOMMENDATION:**

To DEFER the application for completion of a S106 agreement regarding the provision of affordable housing and to approve the application subject to conditions once the S106 agreement is complete.

# 2.2. A230527


Drain
Parc Teifi
Police Station
Electricity Sub Station
El Sub Sta
PARC TEIFI
Ty Parc /
Parc House

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais / Application Reference** | A230527 |
| **Derbyniwyd / Received** | 21-07-2023 |
| **Y Bwriad / Proposal** | Development of 18 flexible use commercial units (Uses B1, B2 and B8 of the Use Classes Order, including trade counters) in the form of two buildings. |
| **Lleoliad Safle / Site Location** | Plot C2 Parc Teifi, Cardigan. SA43 1EW |
| **Math o Gais / Application Type** | Full Planning |
| **Ymgeisydd / Applicant** | (TID Holdings Ltd), 5 Maes Y Dderwen, Cardigan, Ceredigion, SA43 1PE |
| **Asiant / Agent** | Llyr Evans (Llyr Evans Planning Ltd), Llantood Farm, Cardigan, SA43 3NU |

**Y SAFLE A'R HANES CYNLLUNIO PERTHNASOL**

Mae safle'r cais yn cyfeirio at barsel gwag o dir yng nghanol Parc Busnes Parc Teifi, sydd ar ochr ddwyreiniol Aberteifi. Mae'r parc busnes yn cynnwys unedau busnes sydd wedi cysylltu â'i gilydd ynghyd â rhai sydd ar wahân, ac maent wedi'u lleoli ar hyd ffordd ystâd fewnol.

Saif safle'r cais o fewn ffin anheddiad Aberteifi ac o fewn safle cyflogaeth a neilltuwyd (E0201).

Nid oes unrhyw hanes cynllunio perthnasol.

**MANYLION Y DATBLYGIAD**

Mae'r cais hwn yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer codi dau adeilad masnachol yn cynnwys 6 uned o fewn uned 1, a 12 uned o fewn uned 2, ynghyd â mynediad, parcio, a gwaith tirweddu cysylltiedig. Byddai'r adeiladau'n cael eu defnyddio ar gyfer defnyddiau B1 (Busnes), B2 (Diwydiannol Cyffredinol) a B8 (Storio a Dosbarthu) o'r Drefn Dosbarthiadau Defnydd, ac ar y cyfan byddant yn darparu arwynebedd llawr masnachol o 1,832 metr sgwâr.

Uned 1 yw'r adeilad mwyaf, ac mae'n 51.9 metr o hyd a 23.2 metr o led. Byddai'r adeilad yn un uchder dwbl, gyda tho talcen slip sy'n 5.5 metr hyd at y bondo ac 8.12 metr hyd at grib y to. Byddai'r adeilad yn cynnwys 6 uned a fyddai'n amrywio o ran maint rhwng 112 metr sgwâr a 223 metr sgwâr. Byddai'r adeilad hwn yn meddiannu mwyafrif o ganol y safle ac yn ymestyn tua'r de, gyda mynediad a pharcio i'r de a'r gorllewin.

Mae Uned 2 ychydig yn llai ac yn 36.9 metr o hyd a 10.7 metr o led. Byddai'r adeilad hwn yn un dau lawr, gyda tho talcen slip sy'n 5.5. metr hyd at y bondo a 7 metr hyd at grib y to. Byddai'r adeilad yn cynnwys 12 uned ar ddau lawr a fyddai'n amrywio o ran maint o 35 metr sgwâr i 70 metr sgwâr. Byddai'r adeilad i'r gogledd o Uned 1, gyda mynediad i'r gogledd, parcio i'r gorllewin ac ar hyd yr ochr ogleddol, ac yn ymestyn tua'r dwyrain.

Mae dyluniad y ddau adeilad yn debyg, ac yn cynnwys yr un deunyddiau sef -

- dalennau metel neu gyfansawdd
- waliau gyda chymysgedd o frics coch a melyn ar waelod y waliau a chladin ar dop y waliau
- ffenestri a drysau uPVC neu alwminiwm wedi'u paentio
- mae'r ddau adeilad yn cynnwys paneli solar ar y to ar yr ochr ddeheuol.

Byddai'r datblygiad yn darparu cyfanswm o 60 man i barcio ceir, gan gynnwys 3 man parcio ar gyfer pobl anabl a 6 phwynt gwefru cerbydau trydan. Mae lle i barcio beiciau yng nghornel de-orllewinol y safle.

Bydd y dull a ddefnyddir ar gyfer amgáu'r tir a thirweddu yn cynnwys cymysgedd o gloddiau isel ac ardaloedd wedi'u tirweddu, ffens atal anifeiliaid a ffens diogelwch ar gyfer rhai unedau. Byddai man amwynder gwyrdd yn cael ei ddarparu yng ngogledd-ddwyrain y safle.

Mae'r cais yn nodi y byddai dŵr wyneb yn cael ei waredu drwy system ddraenio gynaliadwy.

Byddai dŵr brwnt yn cael ei waredu drwy'r brif garthffos.

Mae'r cais, oherwydd ei faint, yn cael ei gyfrif fel Datblygiad Mawr, ac mae adroddiad Ymgynghori Cyn Gwneud Cais wedi'i gyflwyno.

Cyflwynwyd cynlluniau diwygiedig ar 13-11-2023 a oedd yn newid y mynediad at Uned 2 fel bod y mynedfeydd yn wynebu'r gogledd, ac roedd y cynlluniau diwygiedig yn cynnwys cyflwyno llwybr troed cyswllt ar ochr ddwyreiniol yr unedau i wella cysylltedd â'r ardal amwynder.

**Y POLISÏAU A'R CANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL**

**Y Polisïau Cynllunio Cenedlaethol Perthnasol**

- Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021)
- Nodyn Cyngor Technegol 4: Datblygiad Manwerthu a Masnachol (2016)
- Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)
- Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn (1997)
- Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016)
- Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (2007)
- Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd (2014)
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Cylchlythyr 008/2018 Llywodraeth Cymru – Gofynion cynllunio mewn perthynas â defnyddio systemau carthffosiaeth preifat mewn datblygiadau newydd, gan gynnwys tanciau carthion a gweithfeydd bach trin carthion. Gorffennaf 2018

**Y Polisïau Cynllunio Lleol Perthnasol**

Mae polisïau canlynol y Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth ystyried y cais hwn:

- S01 Twf Cynaliadwy
- S02 Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol
- LU11 Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd wedi'u Neilltuo
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM09 Dylunio a Symud
- DM10 Dylunio a Thirweddu
- DM11 Dylunio ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd
- DM12 Seilwaith Cyfleustodau
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM20 Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd
- DM22 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol

Y Canllawiau Cynllunio Atodol Perthnasol:

- Canllawiau Cynllunio Atodol: Safonau Parcio Cyngor Sir Ceredigion
- Canllawiau Cynllunio Atodol: Asesiad Trafnidiaeth
- Canllawiau Cynllunio Atodol: Amgylchedd Adeiledig a Dylunio
- Canllawiau Cynllunio Atodol: Cadwraeth Natur 2015

**YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL**

**DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998**

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol, gan roi sylw priodol i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn o fewn ei ardal, a'r angen i gymryd pob cam rhesymol i atal hynny. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai unrhyw gynnydd sylweddol neu annerbyniol yn y lefelau trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

**DEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchodedig', sef oed; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw priodol i hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu:

• dileu neu leihau'r anfanteision a wynebir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig;
• cymryd camau i gwrdd ag anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig pan fydd y rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
• annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae'r ddyletswydd uchod wedi cael ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniad am y cais hwn. Ystyrir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn un sydd â goblygiadau sylweddol nac yn un a fydd yn cael effaith sylweddol ar bobl sydd â nodwedd warchodedig, o'u cymharu ag unrhyw un arall.

**DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i arfer ei swyddogaethau i fodloni'r saith nod llesiant a geir yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i gosodir yn Neddf 2015. Wrth bennu'r argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

**YMATEBION YMGYNGHORI**

- **Cyngor Tref Aberteifi** - Mae'r Cynghorwyr yn cefnogi'r cais hwn ar yr amod bod yr unedau'n cael eu meddiannu gan fusnesau lleol.
- **Priffyrdd** – Dim gwrthwynebiad, yn ddibynnol ar amodau.
- **Draenio Tir** – Byddai angen cymeradwyaeth ar gyfer y System Ddraenio Gynaliadwy.
- **Ecoleg** – I'w gadarnhau.
- **Cyfoeth Naturiol Cymru** – Dim gwrthwynebiad.
- **Dŵr Cymru** – Argymhellwyd amodau.
- **Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed** – Ni chafwyd ymateb.
- **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru –** Dim gwrthwynebiad.
- **Gwasanaethau Masnachol** – Argymhellwyd amodau.

Derbyniwyd sylwadau oddi wrth un trydydd parti, a oedd yn nodi'r canlynol -

- Dylai'r adeiladau hyn fod ar gyfer busnesau annibynnol lleol ac ni ddylid caniatáu i gwmnïau rhyngwladol eu meddiannu.

**CASGLIAD**

Mae Adran 38 (6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material considerations indicate otherwise".

**Egwyddor y Datblygiad**

Mae Strategaeth Ofodol Cymru'r Dyfodol yn nodi bod Aberteifi yn rhan o Ardal Dwf Ranbarthol Dyffryn Teifi. Mae Ardaloedd Twf Rhanbarthol yn cael eu hystyried yn ganolbwyntiau ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol ac economaidd y rhanbarth. Ystyrir y byddai'r ddarpariaeth o unedau cyflogaeth ychwanegol yn Aberteifi'n cefnogi ei sylfaen o wasanaethau masnachol ac yn ei dro rôl Aberteifi yn y rhanbarth a'r is-ranbarth.

Saif safle'r cais o fewn ffin anheddiad Canolfan Gwasanaethau Trefol Aberteifi. Mae Polisi S01 y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfeirio mwyafrif y twf i'r Canolfannau Gwasanaethau Trefol gan eu bod yn lleoliadau mwy cynaliadwy ar gyfer datblygu. Mae'r polisi'n anelu at ddarparu ar gyfer 4000 o swyddi ledled y sir mewn modd cynaliadwy, gyda 16ha o'r 39ha o dir a neilltuwyd ar gyfer cyflogaeth yn ardal Aberteifi. Mae hyn yn cynnwys y safle arfaethedig sy'n rhan o'r dyraniad ehangach ym Mharc Teifi. Mae'r safle hwn wedi'i neilltuo ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8 yn benodol. Mae Polisi S02 yn nodi y byddai datblygu'n cael ei ganiatáu o fewn Canolfan Gwasanaethau Trefol Aberteifi lle byddai'n cyfrannu at ei rôl isranbarthol gyffredinol fel y nodir yn y Datganiad Grŵp Aneddiadau ynghyd â chyfrannu at strategaethau adfywio, lle mae'r rhain yn bodoli. Mae Aberteifi yn brif ganolfan gwasanaethau ac mae'n darparu ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau ar gyfer y grŵp anheddiad ynghyd â rhai swyddogaethau is-sirol ac ar draws y sir. Credir y byddai unedau cyflogaeth ychwanegol yn Aberteifi'n debygol o gefnogi rôl y dref fel prif ganolfan gwasanaethau. Ar hyn o bryd nid oes strategaeth adfywio o fewn Canolfan Gwasanaethau Trefol Aberteifi.

Mae safle'r cais ym Mharc Busnes Parc Teifi sy'n ganolfan gyflogaeth wedi'i neilltuo (E0201). Mae Polisi LU11 y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi y byddai cynigion mewn perthynas â safleoedd cyflogaeth wedi'u neilltuo yn cael eu caniatáu gyda'r amodau canlynol:

1. Byddant yn adlewyrchu ac yn ychwanegu at rôl gydnabyddedig y safle a'u bod yn unol â'r Rhestr Safleoedd wedi'u Neilltuo berthnasol;
2. Byddant yn amddiffyn ac yn ychwanegu at y defnyddiau B1, B2, N8 a defnydd sui generis ategol ar y safle;
3. Byddant yn darparu seilwaith cynnal priodol.

Mae gan Barc Teifi rôl 'ansawdd uchel' sy'n golygu ei fod yn cael ei ystyried yn safle llai sydd o bwys yn rhanbarthol ac sy'n

cynnwys cyfleoedd cyflogaeth bach neu ganolig eu maint mewn amgylchiadau deniadol sydd mewn lleoliad da o ran prif rwydwaith ffyrdd y sir. Gan fod y cynnig eisiau datblygu nifer o unedau bychain ar gyfer defnyddiau B1, B2 a B8, bernir y byddai'r datblygiad arfaethedig yn addas ar gyfer safle Parc Teifi. Caiff materion yn ymwneud â seilwaith eu trafod isod.

Felly, i grynhoi, byddai'r datblygiad arfaethedig yn cefnogi'r sylfaen o wasanaethau cyhoeddus a masnachol yn Aberteifi a fyddai yn ei dro'n cyfrannu at rôl y dref fel prif ganolfan gwasanaethau ar gyfer yr ardal. O ran y safle arfaethedig, mae'r polisi cynllunio lleol yn nodi bod egwyddor y datblygiad at ddefnyddiau B1, B2 a B8 ym Mharc Teifi yn dderbyniol.

**Cynllun, Maint, Dyluniad a'r Effaith Gweledol**

Mae Polisi DM06 y Cynllun Datblygu Lleol yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygiad fod o safon uchel a dylai gyfrannu'n gadarnhaol at gyd-destun ei leoliad, drwy adlewyrchu dealltwriaeth glir o egwyddorion dylunio, a'r cyd-destun ffisegol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol. Noda Polisi DM09 y dylid dylunio datblygiadau fel eu bod yn sicrhau amgylchedd croesawgar sy'n annog symud drwodd priodol, drwy ddarparu ymdeimlad o le, adlewyrchu swyddogaeth y safle ac annog ffryntiadau gweithredol ar lefel y ddaear. Mae Polisi DM17 yn ceisio diogelu'r dirwedd yn gyffredinol rhag dioddef effeithiau niweidiol sylweddol oherwydd datblygiadau newydd.

Dyluniwyd y cynnig mewn dwy ran, mae Uned 1 yn meddiannu mwyafrif o ganol y safle ac yn wynebu'r gogledd, ac mae Uned 2 yn wynebu'r ffordd ystâd ogleddol. Golyga hyn fod y cynnig yn darparu dau ffryntiad gweithredol ar hyd y ffordd ystâd fewnol, gyda mynediad i gerbydau a cherddwyr yn cael ei ddarparu gan y ffordd a'r palmant presennol.

O ran eu maint a'u dyluniad, bernir bod y ddau adeilad yn dderbyniol gan eu bod yn debyg i adeiladau presennol y parc busnes ac felly byddant yn gydnaws ag edrychiad presennol y parc busnes. Ni fyddai'r datblygiad arfaethedig i'w weld yn amlwg yn y dirwedd ehangach a byddai'n cael ei weld yng nghyd-destun y parc busnes presennol ta beth.

O ganlyniad, mae'r cynnig yn dderbyniol ac yn cyd-fynd â Pholisïau DM06, DM09 a DM17 y Cynllun Datblygu Lleol.

**Tirweddu**

Mae Polisi DM10 y Cynllun Datblygu Lleol yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygiadau gael eu cefnogi gan gynllun tirweddu. Mae Polisi DM20 yn cydnabod bod coetiroedd, coed a gwrychoedd yn cyfrannu'n sylweddol at ansawdd gweledol a bioamrywiaeth y sir, ac mae'n mabwysiadu rhagdybiaeth o blaid cadw'r coed, y gwrychoedd a'r coetiroedd presennol, yn ogystal â phlannu rhai newydd.

Porfa sydd ar y safle ar hyn o bryd gyda stribyn o goed yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin, tuag at ran ogleddol y safle. Cyflwynwyd adroddiad ecolegol fel rhan o'r cais sy'n nodi'r gwelliannau i fioamrywiaeth, gan gynnwys plannu clawdd a choed newydd. Mae'r gwaith tirweddu arfaethedig hefyd yn cael ei ddangos ar gynllun.

Credir bod y gwaith tirweddu arfaethedig yn dderbyniol yn unol â Pholisïau DM10 a DM20 y Cynllun Datblygu Lleol.

**Amwynder**

Saif y datblygiad arfaethedig yng nghanol parc busnes presennol ac mae'r defnyddiau arfaethedig yn cydweddu ac yn addas, ac maent yn cydymffurfio â'r gofynion a nodwyd ar gyfer y safle sydd wedi'i neilltuo. Felly, ni fyddai unrhyw effaith andwyol ar amwynder. Mae Swyddog Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor hefyd wedi argymell nifer o amodau i sicrhau nad yw'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar amwynder.

**Priffyrdd a Pharcio**

Cyflwynwyd Asesiad Trafnidiaeth gyda'r cais sy'n nodi bod y safle'n cynnig mynediad diogel i gerbydau, digon o lefydd parcio, a'i fod mewn lleoliad cynaliadwy sy'n hygyrch i gerddwyr, seiclwyr a defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus.

Byddai'r mynediad at y datblygiad o'r ffordd ystâd fewnol, gyda dwy fynedfa – un i'r gogledd ac un i'r de a fydd yn darparu mynediad uniongyrchol i bob uned. Hefyd, byddai gan yr unedau mannau parcio uniongyrchol ar hyd y ffin orllewinol, a'r ffin ogleddol yn ymestyn tuag at y dwyrain.

Yn seiliedig ar safonau parcio'r Cyngor, byddai'r gofyniad o ran parcio'n amrywio o 15 man parcio pe bai 100% o'r unedau'n cael eu defnyddio ar gyfer defnydd B8 Dosbarthu i 73 man parcio pe bai 100% o'r unedau'n cael eu defnyddio fel swyddfeydd B1. Byddai'r datblygiad yn darparu cyfanswm o 60 man i barcio ceir, gan gynnwys tri man parcio ar gyfer pobl anabl. Darperir man i barcio beiciau yng nghornel de-orllewinol y safle. Noda'r Asesiad Trafnidiaeth fod hyn tuag at ben uchaf yr ystod o fannau parcio sy'n angenrheidiol (15 i 73 man parcio) lle mae 100% o unedau defnydd B8 yn cael ei gymryd ar gyfer y nifer isaf a 100% o unedau defnydd B1 yn cael ei gymryd ar gyfer y nifer uchaf, oherwydd mewn gwirionedd byddai'r adeiladau'n cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau B1, B2 a B8. Mae'r ffordd ystâd bresennol yn cynnwys llwybr troed, ac mae llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr i fynd i ganol y dref, gan ddarparu cysylltiadau da ar gyfer cerddwyr.

Mae'r Asesiad Trafnidiaeth yn cyfrifo nifer y teithiau fyddai'n debygol o gael eu creu ac mae'n awgrymu y byddai tua 31 i 33

o symudiadau gan gerbydau yn ystod yr oriau brig, sy’n golygu un symudiad ychwanegol gan gerbyd bob rhyw 2 funud yn ystod yr oriau prysuraf. Creda’r Asesiad Trafnidiaeth nad ydy hyn yn sylweddol ac ni fyddai’n cael effaith sylweddol ar y rhwydwaith o briffyrdd o amgylch y safle.

Ar ôl derbyn cynlluniau diwygiedig sy’n dangos cyfanswm o 6 man i wefru cerbydau trydan, nid oes gan yr awdurdod priffyrdd lleol unrhyw wrthwynebiad yn ddibynnol ar amodau.

**Ecoleg**

Mae’r safle’n cynnwys dwy ardal o dir sydd wedi’u gwahanu gan glawdd sy’n rhedeg o’r gorllewin i’r dwyrain. Mae’r plot gogleddol yn cynnwys tir pori yn bennaf, gyda phant bach, llaith sydd ar hyn o bryd wedi’i orchuddio â llystyfiant. Tir pori yw’r plot deheuol hefyd. Yn bennaf, mae’r clawdd sydd wedi gor-dyfu’n cynnwys coed derw Twrci gyda rhywfaint o goed ynn, drain gwynion a drain duon lled-aeddfed ac un goeden aethnen lled-aeddfed. Mae’n amlwg nad ydy’r clawdd wedi cael llonydd gan fod ardaloedd o dir moel a thystiolaeth bod cwningod wedi bod yn ei ddefnyddio. Wrth gynnal arolwg o botensial y coed ar gyfer ystlumod sy’n clwydo, canfuwyd bod dim neu braidd dim potensial yno. Dylai unrhyw waith i symud y coed o linell y clawdd ac unrhyw waith i glirio llystyfiant gael ei wneud y tu allan i’r tymor nythu – gellir gosod amodau er mwyn sicrhau hyn.

Mae’r adroddiad ecolegol yn nodi gwelliannau, gan gynnwys -

- plannu clawdd newydd o amgylch ffin y safle a fydd yn cynnwys cyfanswm o tua 100m o rywogaethau cynhenid, a hynny mewn tair rhan;
- plannu coed newydd, gyda chymhareb o dair coeden newydd yn cael eu plannu am bob un a waredwyd, yn unol â’r fersiwn ddiweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru;
- tri blwch adar;
- dau flwch ystlumod;
- glaswelltir amwynder.

Saif y safle o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi, fodd bynnag yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru nid oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd llawn oherwydd ni fyddai unrhyw ffosffadau sy’n mynd i estyniadau llanw Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi yn cael yr un effaith ag y byddai mewn rhannau o’r Ardal Cadwraeth Arbennig lan yr afon sy’n cynnwys dŵr croyw.

Mae posibilrwydd y gallai llygredd o gam adeiladu’r datblygiad fynd i mewn i’r dŵr wyneb ffo ac i’r safle dynodedig. Mae’r ffyrdd mynediad o fewn y parc busnes a’r gefnffordd yn creu byffer o amgylch y safle. Cyflwynwyd Cynllun Atal Llygredd sy’n nodi’r mesurau lliniaru ar gyfer rheoli dŵr ffo llygredig, yr effaith ar ansawdd yr aer, llygredd sŵn a rhywogaethau estron goresgynnol.

O ystyried yr uchod, mae’r Ecolegydd Cynllunio’n fodlon â’r datblygiad arfaethedig yn ddibynnol ar osod amodau i sicrhau’r gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad ecolegol, cydymffurfiaeth â’r Cynllun Atal Llygredd, a bod manylion unrhyw oleuadau allanol yn cael eu cyflwyno a’u cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, os bwriedir cynnwys rhai yn y datblygiad.

**Dŵr wyneb**

Noda’r cais y byddai’r dŵr wyneb yn cael ei waredu drwy system ddraenio gynaliadwy. Cyflwynwyd cynllun draenio. Mae Adran Draenio Tir y Cyngor wedi cynghori y byddai angen cymeradwyaeth ar gyfer System Ddraenio Gynaliadwy, felly byddai Bwrdd Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy’r Cyngor yn gallu delio â’r dŵr wyneb mewn modd digonol fel rhan o’r broses ar gyfer cymeradwyo’r system ddraenio gynaliadwy.

**Draenio dŵr brwnt**

Byddai dŵr brwnt yn cael ei waredu drwy’r brif garthffos. Mae Dŵr Cymru wedi cynghori y byddai’r datblygiad arfaethedig yn gorlenwi’r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff presennol yn Aberteifi sydd eisoes wedi cyrraedd ei gapasiti. Mae gwaith uwchraddio wedi’i gynllunio a bydd yn cael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2027. O ganlyniad, mae Dŵr Cymru’n argymell y dylid gosod amod fel rhan o unrhyw ganiatâd a roddir sy’n nodi na ddylid defnyddio’r datblygiad cyn 31 Mawrth 2027, oni bai bod y gwaith uwchraddio wedi’i gwblhau a bod cadarnhad ysgrifenedig yn nodi hyn wedi’i gyflwyno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Gofynnodd yr asiant am osod carthbwll dros dro i ddelio â dŵr brwnt nes bydd y gwelliannau wedi’u cwblhau. Fodd bynnag, cafodd hyn ei wrthod gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru yng Nghylchlythyr 008/2018 sy’n ei gwneud hi’n ofynnol i ddatblygiad sy’n cael ei wasanaethu gan garthffos gyhoeddus gysylltu â’r garthffos honno. Mae’r Cylchlythyr yn cynghori mai dim ond os gellir dangos er bodd yr awdurdod cynllunio lleol nad yw’n ymarferol cysylltu â charthffos gyhoeddus ar ôl ystyried y gost a / neu’r ymarferoldeb, y dylid ystyried gosod system breifat. O ran system breifat, mae’r Cylchlythyr yn cynghori mai cyfleuster parod i drin carthion dylai fod y flaenoriaeth gyntaf, ac yna tanc carthion. Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Cylchlythyr ar gyfer carthbwll ac mae’n cydnabod bod defnydd amhriodol o systemau

carthffosiaeth nad ydynt yn gysylltiedig â'r prif rwydwaith, yn enwedig y rheini sy'n cynnwys carthbyllau, yn gallu achosi problemau o ran iechyd y cyhoedd, amwynder neu'r amgylchedd.

**Cyfyngu meddiannaeth yr unedau**

Ymatebodd y Cyngor Tref gan nodi bod y Cynghorwyr yn cefnogi'r cais ar yr amod y byddai'r unedau'n cael eu meddiannu gan fusnesau lleol. Cyflwynodd trydydd parti yr un sylwadau hefyd.

Mae Cylchlythyr (Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu, Hydref 2014) Llywodraeth Cymru'n pwysleisio y dylid gosod amodau dim ond os ydynt yn angenrheidiol ac yn rhesymol, yn orfodadwy, yn fanwl gywir ac yn berthnasol i'r gwaith cynllunio a'r datblygiad sydd i'w ganiatáu. Mae amod nad yw'n berthnasol i gynllunio yn ultra vires h.y. mae y tu hwnt i bwerau'r awdurdod cynllunio lleol ac, o bosibl, yn ddiangen ac yn afresymol. Noda'r Cylchlythyr y canlynol: "*Gan fod rheolaethau cynllunio yn ymwneud â defnyddio tir yn hytrach na phwy yw'r defnyddiwr, fel arfer bydd pwy fydd yn meddiannu'r safle y bydd caniatâd yn cael ei roi ar ei gyfer yn amherthnasol".*

Mae'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio â'r polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol a nodwyd uchod, ac nid yw'r datblygiad yn dod yn fwy derbyniol, o safbwynt cynllunio, os ydy'r feddiannaeth yn cael ei chyfyngu i fusnesau lleol yn unig. Byddai defnyddio amod o'r fath yn afresymol o gyfyngol, a byddai'n cyfyngu'r datblygiad yn ddifrifol. Er enghraifft, byddai'n atal busnesau o'r tu allan rhag adleoli / sefydlu yn Aberteifi, gan arwain at effaith negyddol posib ar economi'r dref. Gallai hefyd fod yn broblematig ceisio diffinio'r hyn a ystyrir yn lleol.

Felly, nid yw amod o'r fath yn angenrheidiol ar gyfer gwneud y datblygiad yn dderbyniol, nid yw'n rhesymol, a byddai'n anodd iawn i'w orfodi. Ni ddylid gosod unrhyw amod sy'n methu unrhyw un o'r chwe phrawf.

**Y rhesymau dros gyfeirio'r cais at y Pwyllgor Rheoli Datblygu**

Caiff y cais ei gyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu gan ei fod yn ddatblygiad mawr.

**ARGYMHELLIAD:**

Argymhellir y dylid cymeradwyo'r cais gydag amodau.

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais / Application Reference** | A230527 |
| **Derbyniwyd / Received** | 21-07-2023 |
| **Y Bwriad / Proposal** | Development of 18 flexible use commercial units (Uses B1, B2 and B8 of the Use Classes Order, including trade counters) in the form of two buildings. |
| **Lleoliad Safle / Site Location** | Plot C2 Parc Teifi, Cardigan. SA43 1EW |
| **Math o Gais / Application Type** | Full Planning |
| **Ymgeisydd / Applicant** | (TID Holdings Ltd), 5 Maes Y Dderwen, Cardigan, Ceredigion, SA43 1PE |
| **Asiant / Agent** | Llyr Evans (Llyr Evans Planning Ltd), Llantood Farm, Cardigan, SA43 3NU |

**THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY**

The application site refers to a parcel of vacant land within the centre of Parc Teifi Business Park, which lies on the eastern edge of Cardigan. The business park consists of detached and linked business units set around an internal estate road.

The application site lies within the settlement boundary of Cardigan and within an allocated employment site (E0201).

No relevant planning history.

**DETAILS OF DEVELOPMENT**

The application seeks full planning permission for the erection of two commercial buildings consisting of 6 units within unit 1, and 12 units within unit 2, together with access, parking, and associated landscaping works. The buildings would be used for B1 (Business), B2 (General Industrial) and B8 (Storage & Distribution) uses of the Use Class Order, and overall would provide a total commercial floor area of 1,832 square metres.

Unit 1 is the larger building, measuring 51.9 metres long by 23.2 metres wide. The building will be of double height, with a hipped roof measuring 5.5 metres to eaves and 8.12 metres to ridge.  The building will accommodate 6 units ranging in size of between 122 sq.m and 223 sq.m. This building will occupy the majority of the centre of the site extending southwards, with access and parking to the south and to the west.

Unit 2, is slightly smaller in scale measuring 36.9 metres long by 10.7 metres wide. The building will be two storey, with a hipped roof measuring 5.5metres to eaves and 7 metres to ridge. The building will accommodate 12 units over two floors ranging in size between 35 q.m and 70 sq.m. The building will sit to the north of Unit 1, with access to the north, parking to the west and along the site's northern frontage, extending to the east.

Both buildings are of a similar design, and incorporate the same materials being -

- metal or composite sheeting
- walls are a mixture of red brick and yellow lower walls and cladding upper walls
- painted aluminium or uPVC windows and doors
- both buildings includes solar panels on the south facing roof pane.

The development will provide a total of 60 car parking spaces, including three disabled spaces and 6 EV charging points. Cycle parking is provided at the south west corner of the site.

The means of enclosure and landscaping are a mixture of low hedging and landscaped areas, stock proof fencing and security style fencing for certain units. A green amenity space is provided within the north-east area of the site.

The application states that surface water will be disposed of via a sustainable drainage system.

Foul sewage will be disposed of via the mains sewer.

The application, due to its scale, constitutes Major Development, and a PAC report has been submitted.

Amended plans were submitted on 13-11-2023 amending the access to Unit 2 so that the entrances face north, and to include the introduction of a footpath link on the east side of the units to improve connectivity with the amenity area.

**RELEVANT PLANNING POLICIES AND GUIDANCE**

**Relevant National Planning Policy**

- Future Wales: The National Plan 2040
- Planning Policy Wales (edition 11, February 2021)
- TAN4 Retail and Commercial Development (2016)
- TAN5 Nature Conservation and Planning (2009)
- TAN11 Noise (1997)
- TAN12 Design (2016)
- TAN18 Transport (2007)
- TAN23 Economic Development (2014)
- Active Travel (Wales) Act 2013
- WG Circular 008/2018 - Planning requirement in respect of the use of private sewerage in new development, incorporating septic tanks and small sewage treatment plants, July 2018

**Relevant Local Planning Policy**

These Local Development Plan policies are applicable in the determination of this application:

- S01 Sustainable Development
- S02 Development within Urban Service Centres
- LU11 Employment Allocated Sites
- DM03 Sustainable Travel
- DM04 Travel Infrastructure Material Consideration
- DM06 Design and Placemaking
- DM09 Design & Movement
- DM10 Design and Landscaping
- DM11 Design & Climate Change
- DM12 Utility Infrastructure
- DM13 SUDS
- DM14 Nature Conservation / Ecological Connectivity
- DM15 Local Biodiversity Conservation
- DM17 General Landscape
- DM20 Protection of Trees / Hedgerows
- DM22 Environmental Protection

Relevant adopted Supplementary Planning Guidances:

- CCC Parking Standards SPG
- Transport Assessment SPG
- Built Environment and Design SPG
- Nature Conservation SPG 2015

**OTHER MATERIAL CONSIDERATIONS**

**CRIME AND DISORDER ACT 1998**

Section 17(1) of the Crime and Disorder Act 1998 imposes a duty on the Local Authority to exercise its various functions with due regard to the likely effect of the exercise of those functions on, and the need to do all that it reasonably can to prevent, crime and disorder in its area. This duty has been considered in the evaluation of this application. It is considered that there would be no significant or unacceptable increase in crime and disorder as a result of the proposed decision.

**EQUALITY ACT 2010**

The Equality Act 2010 identifies a number of ‘protected characteristics’, namely age; disability; gender reassignment; pregnancy and maternity; race; religion or belief; sex; sexual orientation; marriage and civil partnership. Having due regard to advancing equality involves:

• removing or minimising disadvantages suffered by people due to their protected characteristics;
• taking steps to meet the needs of people from protected groups where these differ from the need of other people; and
• encouraging people from protected groups to participate in public life or in other activities where their participation is disproportionately low.

The above duty has been given due consideration in the determination of this application. It is considered that the proposed

development does not have any significant implications for, or effect on, persons who share a protected characteristic, over and above any other person.

**WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS (WALES) ACT 2015**

The Well-Being of Future Generations Act (Wales) 2015 places a duty on the Council to take reasonable steps in exercising its functions to meet the seven well-being goals within the Act. This report has been prepared in consideration of the Council's duty and the 'sustainable development principle', as set out in the 2015 Act. In reaching the recommendation, the Council has sought to ensure that the needs of the present are met without compromising the ability of future generations to meet their own needs.

**CONSULTATION RESPONSES**

- **Cyngor Tref Aberteifi Town Council** - Councillors support this application with the condition that they are occupied by local businesses.
- **Highways** - No objection subject to conditions
- **Land Drainage** - SuDS Approval required
- **Ecology** - Recommended conditions
- **Natural Resources Wales** - No objection
- **Dwr Cymru Welsh Water** - Recommended conditions
- **Dyfed Archaeological Trust** - No response received
- **Mid and West Wales Fires and Rescue Service -**No objection
- **Commercial Services** - Recommended conditions

One representation received from third party, noting the following -

- These buildings should be for local independent businesses and not be allowed for occupancy by multi national companies

**CONCLUSION**

Section 38 (6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 states that: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

**Principle of Development**

Future Wales' Spatial Strategy identifies Cardigan as part of the Teifi Valley Regional Growth Area. Regional Growth Areas are considered focal points for the region's social and economic activity. It is considered that the provision of additional employment units in Cardigan would support its commercial service base and in turn Cardigan's sub-regional and regional role.

The application site lies within the settlement boundary of Cardigan Urban Service Centre (USC). LDP Policy S01 directs the majority of growth to the USCs as they represent the most sustainable locations for development. The policy seeks to provide for 4000 jobs across the County in a sustainable manner, with 16ha out of the 39 ha allocated land for employment, within the Cardigan Area.This includes the proposed site which forms part of the larger Parc Teifi allocation. This site has been designated for B1, B2 and B8 uses specifically. Policy S02 states that development will be permitted within Cardigan USC where it contributes to its overall sub-regional role as set out in the Settlement Group Statement and contributes to regeneration strategies, where these exist. Cardigan is a primary service hub and provides a large range of services and facilities to its settlement group as well as some county-wide and sub-county functions. It is considered that additional employment units in Cardigan would likely support the town's role as a primary service hub.There is no current regeneration strategy within Cardigan USC.

The application site is located within Parc Teifi Business Park which is an allocated employment site (E0201). LDP Policy LU11 states that proposal in relation to employment allocated sites will be permitted provided that:

1. It reflects and enhances the recognised role of the site and is in line with relevant Allocated Sites Schedule
2. It protects and enhances the existing B1, B2, B8 and complementary sui generis of the site
3. It provides appropriate supportive infrastructure

Parc Teifi has a 'high quality' role meaning it is considered a smaller site of regional significance which offers small or medium scale employment opportunities in attractive surroundings that are well positioned in relation to the County's main road network. Given the proposal seeks to develop a number of small scale units for B1, B2 and B8 uses, it is deemed that

the proposed development would suit the Parc Teifi site. Matters relating to infrastructure are discussed below.

Therefore, in summary, the proposed development would support Cardigan's commercial and public service base and in turn contribute towards the town's role as a primary service hub for the area. In terms of the proposed site, local planning policy establishes that the principle of development for B1, B2 and B8 uses on Parc Teifi is acceptable.

**Layout, Scale, Design and Visual Impact**

LDP Policy DM06 requires development to be of a high quality design that contributes positively to the context of the site, by reflecting a clear understanding of design principles, the local physical, social, economic and environmental context. Policy DM09 states that development should be designed to secure a welcoming environmental which encourages appropriate through movement, by providing a sense of place, reflect site function and encourage active frontages at ground level. Policy DM17 seeks to protect the general landscape from significant adverse effect caused by new development.

The proposal has been designed in two parts, where Unit 1 occupies the majority of the centre of the site and fronts the north, and Unit 2 fronts onto northern estate road. This results in the proposal providing two active frontages along the internal estate road, with vehicular and pedestrian access being achieved from the existing road and pavement.

The two buildings in terms of their scale and design is considered to be acceptable as they are similar to the existing buildings within the business park and would therefore be inkeeping with the existing appearance of the business park. The proposed development would not be prominently visible within the wider landscape and would in any case be read in the context of the existing business park.

As a result, the proposal is acceptable in line with LDP Policies DM06, DM09, and DM17.

**Landscaping**

LDP Policy DM10 requires development to be supported by a landscaping scheme. Policy DM20 recognises that woodlands, trees and hedgerows contribute significantly to the visual quality and biodiversity of the County, and adopts a presumption in favour of the retention of existing trees, hedgerows and woodlands, in addition, to new planting.

The existing site is laid with grass with a tree belt running from east to west, towards the northern part of the site. An ecology report has been submitted as part of the application which sets out biodiversity enhancement which includes the planting of a new hedge and trees. The proposed landscaping is also shown on a plan.

The proposed landscaping is considered to be acceptable in line with LDP Policies DM10 and DM20.

**Amenity**

The proposed development lies within the centre of an existing established business park and the proposed uses are compatible and appropriate and in line with the requirements set out for the allocated site. Therefore there will be no adverse impact on amenity. The Council's Public Protection Officer has also recommended a number of conditions to ensure that the proposed development does not have an adverse impact on amenity.

**Highways and Parking**

The application is accompanied by a Transport Assessment which states that the site provides safe vehicular access, adequate parking provision, and is within a sustainable location being accessible to pedestrians, cyclist and by public transport users.

The development will be accessed via the existing internal estate road, with two entrances - one to the north and one to the south providing direct access to each of the units. The units will also have direct parking spaces along the west boundary, and the north boundary extending towards east.

Based on the Council's parking standards, the parking requirement ranges between 15 spaces if 100% of the units were to be used for B8 Distribution to 73 spaces if 100% of the units were to be as B1 offices. The development will provide a total of 60 car parking spaces, including three disabled spaces. Cycle parking is provided at the south west corner of the site. The Transport Assessment notes that this lies towards the upper end of the range of parking spaces (15 to 73) spaces where 100% B8 uses is assumed for the lower number and 100% B1 office use is assumed for the higher number, as in reality the buildings will be used for a mix of b1, B2 and B8 uses. The existing estate road includes a footpath, and there are also a pedestrian and cyclist routes to the town centre, therefore providing good pedestrian connectivity.

The Transport Assessment calculates the likely trip generation which suggests some 31 to 33 peak hour vehicle movements, which represents an average of only one additional vehicle movement every 2 minutes or so during the busiest hours. The TA considers this to be insignificant and will have no material impact on the surrounding highway network.

Following the receipt of amended plans showing a total of 6 E.V Charging Points, the local highway authority has raised no objection subject to conditions.

**Ecology**

The site comprises two areas of land separated by a hedgerow running west to east. The northern plot is predominently grazed grassland with a small damp hollow currently vegetated. The southern plot is also grazed grassland. The overgrown hedgerow comprises mainly of Trukey Oak with some semi-mature Ash, hawthorn, blackthorn and a signle specimen of semi-mature aspen. The hedgerow is very disturbed with areas of bare ground and evidence of rabbit use. The tree survey for potential for hosting roosting bats found no or negligible potential for roosting bat features. Removal of the rees within the hedgeline and further vegetation clearance should be undertaken outsode of the nesting season - this can be conditioned.

The ecology report sets out enhancement, which include -

- planting of new hedgerow around the boundary of the site which will comprise approximately 100m of native planting in total, spread across three sections.
- new tree planting, which shall be taken at a ratio of three trees planted for every one tree removed, in line with updated PPW.
- three bird boxes
- two bat boxes
- amenity grassland

The site is located within the Afon Teifi SAC catchment area, however it is has been screened out from requiring a full HRA under guidance from NRW as any phosphates that enters the tidal reaches of the Afon Teifi SAC is not considered to have the same impact as it would in truly freshwater parts of the SAC, upstream.

There is potential for pollution from the construction phase of the development to enter surface water runoff and onto the designated site. The site is buffered by access roads within the business park and the main trunk road. A Pollution Prevention Plan has been submitted detailing mitigation measures to control pollutant runoff, air quality impacts, noise pollution and INNS.

In view of the above, the Planning Ecologist is satisfied with the proposed development subject to conditions securing the enhancement set out within the ecology report, compliance with the Pollution Prevention Plan, and that details of any external lighting are first submitted and approved by the LPA if any are proposed.

**Surface Water**

The application states that surface water will be disposed of via sustainable drainage system. A drainage layout plan has been submitted. The Council's Land Drainage has advised that SuDS approval is required, therefore, surface water can be adequately dealt with by the Council's SAB, as part of the SuDS approval process.

**Foul Drainage**

Foul sewage will be disposed of via main sewer. Dwr Cymru has advised that the proposed development would overload the existing Cardigan Waste Water Treatment Works which has reached it's capacity. Upgrading works are planned for completion by 31 March 2027. As a result, Dwr Cymru recommends that a condition is imposed as part of any permission noting that the development shall not be brought into use earlier than 31st March 2027, unless the upgrading of Cardigan WWTW has been completed and written confirmation of this has been issued by the LPA.

The agent requested that they install a temporary cesspool to deal with foul sewerage up until the improvements works have been completed. However this has been rejected by the LPA, in line with Welsh Government's advice within Circular 008/2018 which requires development that are served by a public sewer, to be connected to it. The Circular advises that only if it can be shown to satisfaction of the LPA that a connection to the public sewer is not feasible taking into account the cost and /or practicability, would a private system be considered. In terms of a private system, the Circular advises that a package treatment plant should be the first priority, and then a septic tank. It does not make provision for a cesspool and recognises that inappropriate use of non-mains sewerage systems, particularly those incorporating cesspools can give rise to public health, amenity of environmental problems.

**Restricting the occupancy of the units**

The Town Council has responded saying that councillors support the application with the condition that they are occupied by local businesses. A third party has also submitted the same comments.

Welsh Government Circular (The Use of Planning Conditions for Development Management, October 2014) stresses that conditions should only be imposed where they are both necessary and reasonable, as well as enforceable, precise and

relevant both to planning and to the development to be permitted. A condition which has no relevance to planning is ultra vires i.e. beyond the powers of the local planning authority, and potentially both unnecessary and unreasonable. The Circular states that *"Since planning controls are concerned with the use of land rather than the identity of the user, the question of who is to occupy the premises for which permission is to be granted will normally be irrelevant."*

The proposed development complies with relevant national and local planning policies as noted above, and the development does not become more acceptable, in planning terms, if its occupancy is restricted to local businesses only. The use of such condition would be unduly restrictive, and would put severe limitation on the development. For example, it would prevent in-coming businesses from relocating/establishing in Cardigan, resulting in potential negative impact to the town's economy. Defining local could also be problematic.

Therefore, such a condition is not necessary to make the development acceptable, nor it is reasonable, and would also be difficult to enforce. A condition which fails any of the six tests should not be imposed.

**Reasons for referral to the Development Management Committee**

The application is reported to the Development Management Committee as it constitutes major development.

**RECOMMENDATION:**

Approve subject to conditions

# 2.3. A230561


Ogof
Cave
Boulders
Traeth Dôlwen
Sand
Pen Trwyn Cynwyl
Rock
Traeth Dyffryn
Mean High Water
Mast
(Telecommunication)
Dolwen
Maesteg
16.6m
Camera
Gwyn-Aeron
Bryn Meirion
Rofft
37.8m
RHIW Y ROFFT
Wayside
Plas y Mag
Radnor
Glyn Coed
Trevethin
Station
The Shack
Sweet Hope
13.3m
PC
Posts
Car Park
15.8m
FFORDD YR ODYN
Cliff View
Ship
Chapel
Sand
MLWS

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cais / Application Reference** | A230561 |
| **Derbyniwyd / Received** | 02-08-2023 |
| **Y Bwriad / Proposal** | Proposed demolition of existing dwelling and proposed new build of dwelling. And all associated works. |
| **Lleoliad Safle / Site Location** | The Beach House, Cae Dolwen, Aberporth, Cardigan. SA43 2DE |
| **Math o Gais / Application Type** | Full Planning |
| **Ymgeisydd / Applicant** | Mr P Hodgson, Gilwendeg Cae Dolwen, Aberporth, Ceredigion, SA43 2DE |
| **Asiant / Agent** | Mr Stewart Corbett (Archi-Tech), Unit 3 Canolfan Teifi Pendre, Cardigan, Ceredigion, SA43 1JL |

**Y SAFLE A HANES PERTHNASOL**

Mae'r cais yn ymwneud â byngalo sengl sy'n cael ei adnabod fel The Beach House, sydd wedi'i leoli yng nghornel gogledd-ddwyreiniol ystâd Cae Dolwen o fewn terfynau anheddiad Aberporth. Mae gan y brif annedd do sydd ar oleddf a gardd gefn sy'n ffinio â Heol Pentraeth i'r gogledd ac mae'n edrych allan dros Draeth Dolwen.

**<u>Hanes cynllunio perthnasol</u>**

A211058 – Y bwriad i ddymchwel y tŷ presennol a'r bwriad i adeiladu annedd newydd gan gynnwys wal gynnal gaergawell hyd at y man parcio ceir a'r holl waith cysylltiedig. Gwrthodwyd – 28/10/2022.

**MANYLION Y DATBLYGIAD**

Mae'r cais arfaethedig yn gofyn am ganiatâd cynllunio llawn i ddymchwel y byngalo*chalet* pedair ystafell wely gan godi annedd dau lawr yn ei le a fydd yn cynnwys tair ystafell wely.

Mae mesuriadau'r annedd bresennol fel a ganlyn: 15 metr o led, 7.4 metr o hyd a 5.6 metr o uchder i fyny at y grib.

Mae mesuriadau'r annedd arfaethedig newydd fel a ganlyn: 15.17 metr o led ar hyd y gweddlun blaen, 15.38 metr o led ar hyd y gweddlun cefn, 12.46 metr o hyd gan leihau i 7.9 metr ar hyd y gweddlun ochr, 5.42 metr hyd at y bondo a 7.47 metr i fyny at y grib (cynnydd o 1.87 metr). Mae'r deunyddiau a gynigir ar gyfer y gorffeniad ar y tu allan yn cynnwys – teils crib i gyd-fynd â'r llechi ar y to presennol sydd wedi'u gosod â llaw, ffasgia a bondoeau alwminiwm, ffenestri a drysau wedi'u gwneud o alwminiwm llwyd, waliau plinth cerrig wedi'u rendro'n llyfn.

**POLISÏAU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL**

Mae'r polisïau canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

- S01 Twf Cynaliadwy
- S03 Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM12 Seilwaith Cyfleustodau
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM18 Ardaloedd Tirwedd Arbennig
- LU08 Anheddau Newydd yn Lle'r Rhai Presennol
- Canllawiau Cynllunio Atodol 6: Amgylchedd Adeiledig a Dylunio (2015)
- FW21: Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

- PPW21: Polisi Cynllunio Cymru (rhifyn 11, Chwefror 2021)

**YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL**

**DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998**

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol y swyddogaethau hyn ar droseddau ac anhrefn o fewn ei ardal, ac i wneud popeth y gall yn rhesymol i atal troseddau ac anhrefn. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai cynnydd sylweddol neu annerbyniol mewn troseddau ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

**DEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

| 43 | A230753 | Mr and Mrs D & C Jenkins | Demolition of existing conservatory, erection of an extension and front porch. | Fronwen, Sarnau, Llandysul, Ceredigion, SA44 6QD | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 21-12-2023 |
| 44 | A230756 | Mr Frank Reynolds (Frank Reynolds Architects) | Discharge of condition 3 of listed building consent - A230366 - Masonry works | Drefaes Uchaf, B4577a From The Entrance To The Forestry Commisssion To The Junction Of The B4576, Bethania, Llanon, Ceredigion, SY23 5NJ | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn llawn / Condition(s) Fully Discharged | 22-12-2023 |
| 45 | A230757 | Mr Alex Crowley | Reserved Matters application for the erection of a dwelling with integral garage | Plot Adj. To Llys Wen, Bethania, Llanon, SY23 5NJ | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 19-12-2023 |
| 46 | A230765 | Mr Stuart Stephens | Change of Use and alterations to provide residential bedsit/apartment on part of the ground floor together with associated works (Managers bedsit/apartment) | Bar46, 46 Bridge Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1QB | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 20-12-2023 |
| 47 | A230768 | Mr J Turner (Delineate.A I) | Display of signage to East gable end and North facing faced | Block 4, Dyffryn Teifi Secondary School Heol Llyn Y Fran, Llandysul, Ceredigion, SA44 4HP | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 03-01-2024 |
| 48 | A230775 | Mr Carwyn Jones | Proposed first floor extension to dwelling, rear extension and replacement garage. | Haulwen, B4577a From The Junction Of The U1419 To The Junction Of The U1416, Pennant, Llanon, Ceredigion, SY23 5PD | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 02-01-2024 |
| 49 | A230778 | (Evans Bros) | Erection of portal framed commercial building and associated works for use as storage and assembly of agricultural machinery. | Workshop, Cefn Mabws, Llanrhystud. SY23 5BD | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 03-01-2024 |
| 50 | A230781 | Mr Wells Jones | Proposed Affordable dwelling | Plot 1c Towyn, Gwbert, Cardigan, Ceredigion, SA43 1PP | Gwrthodwyd / Refused | 04-01-2024 |

| # | Cyfeirnod y Cais / Application Reference | Ymgeisydd / Applicant | Bwriad / Proposal | Lleoliad / Location | Penderfyniad / Decision | Dyddiad Penderfyniad / Decision Issued Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 51 | A230784 | Mr R Llwyd | Discharge condition 4 of planning permission A211020 - Written Scheme of Investigation | Aberaeron Harbour & South Beach Aberaeron, | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn rhannol / Condition(s) Partially Discharged | 13-12-2023 |
| 52 | A230787 | Joe Hope | Discharge of condition 4 of planning permission - A210189 - Photographic survey | Cefn Coch, From The Junction Of The C1139 To Cefn Coch Farm (private), Glas Pwll, Machynlleth, Ceredigion, SY20 8UA | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn llawn / Condition(s) Fully Discharged | 20-12-2023 |
| 53 | A230788 | Mr A Evans | Discharge of condition 5 of planning permission - A230224 - Written scheme of investigation | Rhydsais, Talgarreg, Llandysul, Ceredigion, SA44 4HH | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn rhannol / Condition(s) Partially Discharged | 19-12-2023 |
| 54 | A230789 | Mr Wells Jones | Discharge Condition 3 of A220814 - Proposed Extension to side of existing hotel to include bar / lounge area with bathrooms, 5 additional bedrooms and managers accommodation. Proposed entrance lobby / reception area and all associated works | The Gwbert Hotel Coronation Drive, Gwbert, Cardigan, Ceredigion, SA43 1PP | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn llawn / Condition(s) Fully Discharged | 18-12-2023 |
| 55 | A230790 | Mr Andrew Davies (Wales & West Housing Association ) | Non material amendment to planning permission A181165 & A210342 - change of design of dwellings and estate layout | Site of Former Tollgate Inn, Piercefield Lane, Penparcau, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1RX | Caniatawyd / Approved | 14-12-2023 |
| 56 | A230802 | Mr Brian MacGiollabhain | Internal modifications and raising of roof level to provide adequate internal head height. | Trecwn, Ponthirwaun, Cardigan. SA43 2RF | Dychwelwyd yn annilys / Returned Invalid | 11-12-2023 |
| 57 | A230803 | Mr Harold Powles (Catley Building Conservation Ltd) | Demolition of existing dwelling and erection of a replacement dwelling and all associated works | Brynhyfryd Ffordd Newydd, Aberporth, Cardigan, Ceredigion, SA43 2EW | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 04-01-2024 |
| 58 | A230804 | (Enfys Developments Ltd) | Confirmation that the demolition of existing on-site structures comprise development | Cardigan and District Hospital, Pont-y-Cleifion, Cardigan. SA43 1DP | Caniatawyd / Approved | 02-01-2024 |
| 59 | A230806 | Ms Gayle Waterhouse | Proposed retrospective application for partially built replacement porch extension to front elevation of dwelling | Tan Eglwys, U1401 From Church Street To A Property Known As Pengarreg, Ceredigion, SY23 5DH | Caniatawyd gydag Amodau / Approved Subject to Conditions | 04-01-2024 |

| # | Cyfeirnod y Cais / Application Reference | Ymgeisydd / Applicant | Bwriad / Proposal | Lleoliad / Location | Penderfyniad / Decision | Dyddiad Penderfyniad / Decision Issued Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 60 | A230810 | Mr Andrew Davies (Wales & West Housing Association ) | Discharge of condition 9 of planning permission - A181165 - ecological enhancements | Site Of Former Tollgate Inn Public House Piercefield Lane, Penparcau, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1RX | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn llawn / Condition(s) Fully Discharged | 18-12-2023 |
| 61 | A230812 | Mr Andrew Davies (Wales & West Housing Association ) | Discharge of condition 8 of planning permission - A200440 - Ecological enhancments | The Tollgate Piercefield Lane, Penparcau, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 1RX | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn llawn / Condition(s) Fully Discharged | 18-12-2023 |
| 62 | A230815 | Mrs Tracy Kirtley | Proposed change of use of two lorry backs into 1.no holiday let to include changes to existing vehicular access and parking area | Penparc, C1107 From Dihewyd to the junction of the U5179, Dihewyd, Lampeter, Ceredigion, SA48 7PZ | Gwrthodwyd / Refused | 10-01-2024 |
| 63 | A230817 | Mrs Jane O'Brien (Ynniteg Community Energy) | Discharge of condition 6 of planning permission - A140413 - Access points | Land West Of Penrhiw Fach, Henfynyw, Aberaeron, SA47 0HP | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn llawn / Condition(s) Fully Discharged | 10-01-2024 |
| 64 | A230818 | Mrs Jane O'Brien (Ynniteg Community Energy) | Discharge of condition 8 of planning permission - A140413 - CTMP | Land West Of Penrhiw Fach, Henfynyw, Aberaeron, SA47 0HP | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn llawn / Condition(s) Fully Discharged | 09-01-2024 |
| 65 | A230826 | Mr Richard H T Gipps | Lawful development certificate for use of land (residential caravan and associated curtilage) | Caravan, B4353 From Ynyslas Beach Road To Holiday Park, Aberleri Boat Yard, Ynyslas, Borth, Ceredigion, SY24 5LB | Gwrthodwyd / Refused | 21-12-2023 |
| 66 | A230836 | Mr Gerwyn Evans | Discharge of condition 11 of planning permission - A230377 - Reptile method statement | Land Adjacent To Ynys Goch Fach, Bronant, Aberystwyth, SY23 4TQ | Amod(au) wedi'u rhyddhau yn llawn / Condition(s) Fully Discharged | 11-12-2023 |
| 67 | A230841 | Mrs Ozcan | Discharge of condition 3 of Planning Permission A220881 - eradication of Japanese Knotweed | 15 Pendre, Cardigan, SA43 1JL | Dychwelwyd yn annilys / Returned Invalid | 28-12-2023 |
| 68 | A230842 | Mrs Ozcan | Discharge condition 4 of Planning Permission A220881 - Air Extraction | 15 Pendre, Cardigan, SA43 1JL | Dychwelwyd yn annilys / Returned Invalid | 28-12-2023 |
| 69 | A230843 | Mrs Ozcan | Discharge condition 5 of Planning Permission A220881 - Waste Disposal & Storage | 15 Pendre, Cardigan, SA43 1JL | Dychwelwyd yn annilys / Returned Invalid | 28-12-2023 |
| 70 | A230844 | Mrs Ozcan | Discharge condition 6 of Planning Permission A220881 - Grease Trap | 15 Pendre, Cardigan, SA43 1JL | Dychwelwyd yn annilys / Returned Invalid | 28-12-2023 |

| # | Cyfeirnod y Cais / Application Reference | Ymgeisydd / Applicant | Bwriad / Proposal | Lleoliad / Location | Penderfyniad / Decision | Dyddiad Penderfyniad / Decision Issued Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 71 | A230848 | Mr D. Edwards & Miss C. Hughes | Discahrge of condition 3 of planning permission - A210829 - materials | Tynant, Bronant, Aberystwyth, SY23 4JA | Dychwelwyd yn annilys / Returned Invalid | 05-01-2024 |
| 72 | A230849 | Mr D. Edwards & Miss C. Hughes | Discharge of condition 7 of planning permission - A210829 - Pollution prevention plan | Tynant, Bronant, Aberystwyth, SY23 4JA | Dychwelwyd yn annilys / Returned Invalid | 05-01-2024 |
| 73 | A230850 | Mr D. Edwards & Miss C. Hughes | Discharge of condition 8 of planning permission - A210829 - bird survey | Tynant, Bronant, Aberystwyth, SY23 4JA | Dychwelwyd yn annilys / Returned Invalid | 05-01-2024 |
| 74 | A230851 | Mr D. Edwards & Miss C. Hughes | Discharge of condition 9 of planning permission - A210829 - ecological enhancements | Tynant, Bronant, Aberystwyth, SY23 4JA | Dychwelwyd yn annilys / Returned Invalid | 05-01-2024 |
| 75 | A230856 | Mr Rhys Gronow | wooden cabins to be used for air b and b | Llwyniwan, C1132 From The Junction Of The B4334 To The Private Road Leading To Brynbedw, Rhydlewis, Llandysul, Ceredigion, SA44 5PE | Dychwelwyd yn annilys / Returned Invalid | 02-01-2024 |
| 76 | A230861 | Mr Tim Pink | Proposed lawful development certificate for extension to Mingwynion, and connection to existing sewerage system. | Meinigwynion, C1149 From Sisillt To Llangeitho, Llangeitho, Tregaron, Ceredigion, SY25 6QH | Gwrthodwyd / Refused | 21-12-2023 |

| # | Cyfeirnod y Cais / Application Reference | Ymgeisydd / Applicant | Bwriad / Proposal | Lleoliad / Location | Penderfyniad / Decision | Dyddiad Penderfyniad / Decision Issued Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 77 | A230866 | Colin Hurley | There are five windows at the front of the house, all sash windows with glazing bars and small panes. The downstairs window and two first floor bedroom windows have six panes in each sash and the two 2nd floor windows have three panes in each sash. See attached picture. The application is to replace the windows with new wood windows to the exact same exterior design as the existing windows, the only difference would be the windows will be double glazed with 4mm glass in the format 4-8-4 with Heritage glass. These windows would need to be specifically made by the skilled craftsmen at J&E windows to fit the non-standard window openings. The appearance of the exterior of the house would not change. | Eryl, 3 High Street, New Quay, Ceredigion, SA45 9NY | Dychwelwyd yn annilys / Returned Invalid | 02-01-2024 |
| 78 | A230867 | Mr and Mrs Gary Turner | Non material minor amendment to planning Decision A220648 - angle of roof to be raised to allow for natural slate roof covering and installation of treatment plant. | Rhydowen, Llanarth, Ceredigion, SA47 0PF | Gwrthodwyd / Refused | 04-01-2024 |
| 79 | A230875 | Mr and Mrs D & G Thomas | Amendment to planning permission A220464 - change to roof finishes. | Plot 4a Hafod Y Mor, Tresaith, Cardigan, SA43 2JQ | Caniatawyd / Approved | 03-01-2024 |
| 80 | A230886 | Mr Anthony Smee | The incorrect drawings have been referenced on the decision notice. We also wish to confirm alterations to roofing and wall cladding | Brynheulog, U1518 From Llanddewi Brefi To The Entrance Of The Esgair Goch Forestry, Llanddewi Brefi, Tregaron, Ceredigion, SY25 6PE | Caniatawyd / Approved | 22-12-2023 |
| 81 | A230892 | Mr T Davies (Ffarm Caradog) | Erection of an agricultural shed | Ffarm Caradog (next To Rhydcaradog) Maesycrugiau, Pencader, SA39 9LN | Caniatâd ymlaen llaw ddim ei angen / Prior Approval Not Required | 10-01-2024 |

| # | Cyfeirnod y Cais / Application Reference | Ymgeisydd / Applicant | Bwriad / Proposal | Lleoliad / Location | Penderfyniad / Decision | Dyddiad Penderfyniad / Decision Issued Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 82 | A230900 | Mr Aled Morris | Variation of Condition 2 of A180029 - Change of Design | Llwynpiod, C1001b From The Junction Of The B4548 To The Junction Of The C1078, Cardigan, Ceredigion, SA43 1PJ | Dychwelwyd / Returned | 20-12-2023 |
| 83 | A230917 | Ms Bronwen Williams | Complete demolition of the Mill House and its Rebuild like-for like with a modern ground floor extension, as per the approved planning application submitted by Downs Merrifield Architects in September 2021, ref. A210927. | The Mill House, Sarnau, Llandysul, Ceredigion, SA44 6QL | Dychwelwyd yn annilys / Returned Invalid | 04-01-2024 |
| 84 | A230918 | Khadeja Butul (Openreach) | BT intends to install fixed line broadband electronic communications apparatus RLITIIG | Neuadd Mansion, Oakford, Llanarth, Ceredigion, SA47 0RL | Dychwelwyd / Returned | 04-01-2024 |

# 4. Penderfyniadau Apeliadau/Appeal Decisions

**07-12-2023 - 10-01-2024**

| # | Cyfeirnod yr Apel / Appeal Reference | Cais / Gorfodaeth / Linked Application / Enforcement | Apeliwr / Appellant | Rhesymau dros apelio / Grounds for Appeal | Lleoliad / Location | Penderfyniad Allanol / External Decision | Dyddiad Penderfyniad Allanol / External Decision Date |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | CAS-02396-K1Z5R3 | A211183 | Mr Gary Fryar | Refuse planning permission for the proposed development | The Island Site, Beach Parade, Aberaeron. SA46 0BE | Dismissed | 07-12-2023 |
| 2 | CAS-02693-L5G4X5 | A220077 | Mr C Scragg | Against refusal | Brynawel, Llaingarreglwyd, Llanarth, SA47 0QA | Dismissed | 21-12-2023 |
| 3 | CAS-02740-B1K5J5 | A220031 | Mr Paul Christopher | Refusal of permission | Ty Gwyn, Cei Bach, New Quay. SA45 9SL | Dismissed | 12-12-2023 |

# 5. Apeliadau a Dderbyniwyd/Appeals Received

**07-12-2023 - 10-01-2024**

| # | Cyfeirnod yr Apel / Appeal Reference | Cais / Gorfodaeth / Linked Application / Enforcement | Apeliwr / Appellant | Rhesymau dros apelio / Grounds for Appeal | Lleoliad / Location | Penderfyniad Allanol / External Decision | Dyddiad Penderfyniad Allanol / External Decision Date |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# Penderfyniad ar yr Apêl

gan Iwan Lloyd BA BTP MRTPI

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad y penderfyniad: 07/12/2023

Cyfeirnod yr apêl: CAS-02396-K1Z5R3

Cyfeiriad y safle: Y Safle Ynys, Ffordd y Traeth, Aberaeron SA46 0BE

- Gwneir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Gwneir yr apêl gan Mr Gary Fryer yn erbyn y penderfyniad gan Gyngor Sir Ceredigion.
- Gwrthodwyd y cais, Cyf A211183, dyddiedig 9 Rhagfyr 2021, drwy hysbysiad dyddiedig 22 Mehefin 2022.
- Y datblygiad a gynigir yw tŷ cychod/storfa newydd.
- Gwnaed ymweliad â'r safle ar 29 Awst 2023.

**Penderfyniad**

1. Gwrthodir yr apêl.

**Materion Gweithdrefnol**

2. Bu'r Cyngor yn ystyried y cais yn erbyn y cynlluniau cychwynnol RJ01-09 a gyflwynwyd. Ni aeth yr apelydd ar drywydd ei ddyluniad amgen enghreifftiol yn ystod y broses ymgeisio, yn hytrach na'r cynlluniau cychwynnol a gyflwynwyd. Rwyf wedi ystyried yr apêl hon ar sail y cynlluniau a wrthodwyd gan y Cyngor, sef RJ01-09.

**Prif Faterion**

3. Y prif faterion yw:
    - Effaith y datblygiad a gynigir ar leoliad adeiladau rhestredig gerllaw, ac
    - Effaith y datblygiad a gynigir ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal, gan gynnwys lleoliad Ardal Gadwraeth (AG) Aberaeron gerllaw.

**Rhesymau**

4. Mae safle'r apêl yn fan gwyrdd bach wedi'i amgylchynu gan Ffordd y Traeth a ffyrdd mynediad sy'n arwain at faes parcio Traeth y De. Ar ochr ddwyreiniol y safle ynys hwn mae adeilad rhestredig Gradd II, The Weigh House. Yn gyfagos i'r safle ynys hwn mae twmpath gwyrdd arall sy'n cynnwys olion odyn galch. Mae'r ddau safle ynys hyn wedi'u gwahanu a'u hamgylchynu gan ffyrdd bach sy'n arwain at y maes parcio, a llithrfa basn yr harbwr, a Chei'r Gogledd-orllewin (rhestredig Gradd II) sydd hefyd yn cysylltu â Phier y De-orllewin (rhestredig Gradd II). Mae'r AG wedi'i lleoli gerllaw ochr dde-ddwyreiniol safle'r apêl yn Harbour Lane lle mae'n ymuno â Heol yr Odyn. Mae safle'r apêl yn eiddo i'r

apelydd, ond mae hefyd yn Dir Comin. Mae eiddo'r apelydd wedi'i leoli gyferbyn â The Weigh House. Mae'r datblygiad arfaethedig wedi'i leoli ar safle ynys The Weigh House ar yr ochr ogledd-orllewinol, ac mae adeilad rhestredig The Weigh House wedi'i leoli ar ochr de-ddwyreiniol yr ynys.

5. Mae'r apelydd wedi darparu Asesiad o'r Effaith i gyd-fynd â'r cais. Mae Cadw o'r farn nad yw proses asesu Llywodraeth Cymru, sef Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, mis Mai 2017, wedi'i dilyn. Nid roddir sylw i arwyddocâd The Weigh House na'r adeiladau rhestredig eraill a grybwyllir uchod, gan gynnwys yr AG gyfagos, ac felly nid yw'r ddealltwriaeth o'r cyfraniad y mae'r lleoliad yn ei wneud i arwyddocâd yr ased wedi'i harchwilio'n briodol er mwyn ystyried yn llawn effaith y datblygiad arfaethedig ar leoliad yr ased a'r amgylchedd adeiledig a morol o'i amgylch.

*Adeiladau Rhestredig*

6. Mae Adran 16(2) a 66(1) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r penderfynwr, wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw waith neu ddatblygiad sy'n effeithio ar adeilad rhestredig neu ei leoliad, roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw'r adeilad neu ei leoliad neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd ganddo. Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (PCC) a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (TAN 24), a Lleoliad Asedau Hanesyddol yn rhoi arweiniad ac yn atgyfnerthu'r safiad hwn. Mae TAN 24 yn diffinio lleoliad ased hanesyddol fel un sy'n cynnwys yr amgylchoedd lle caiff ei ddeall, ei brofi, a'i werthfawrogi, gan gofleidio perthnasoedd â'r dirwedd o'i amgylch yn y presennol a'r gorffennol.

7. Yn aml, mae lleoliad yn ymestyn y tu hwnt i ffin eiddo'r ased hanesyddol unigol, i gyd-destun y dirwedd ehangach. Gall ffactorau anniriaethol yn ogystal â ffactorau ffisegol fod yn bwysig er mwyn deall lleoliad ased hanesyddol. Gall y rhain gynnwys swyddogaeth, canfyddiadau synhwyraidd, neu gysylltiadau hanesyddol, artistig, llenyddol a golygfaol. Nid yw lleoliad yn ei hun yn ased hanesyddol, er y gall tir o fewn lleoliad gynnwys asedau hanesyddol eraill. Gwelir pwysigrwydd lleoliad yn yr hyn y mae'n ei gyfrannu at arwyddocâd ased hanesyddol.

8. Credir y cafodd The Weigh House ei adeiladu rhwng 1820 a 1830 a chafodd ei ddefnyddio ar gyfer pwyso calch a gludwyd i'r harbwr ac a losgwyd yn yr odynau calch cyfagos. Mae'n adeilad hirsgwar bach, yn unllawr o ran ei uchder, ac wedi'i adeiladu o rwbel wedi'i baentio. Mae ganddo do llechi talcennog a chorn simnai o frics. Mae ffenestri codi â deuddeg cwarel wedi'u lleoli ar y gweddau dwyreiniol a deheuol, ac mae drws estyllog cilfachog ar ochr ddeheuol yr adeilad.

9. Mae perthynas gref a pharhaus yn bodoli rhwng The Weigh House a gweddillion cyfagos yr odynau calch. Mae dirywiad strwythur yr odyn galch, a'i gyfuniad â thwmpath adffurfiedig yr ynys yn dilyn adeiladu'r ffordd fewnol rhwng yr odyn a The Weigh House, wedi lleihau ac erydu i ryw raddau'r lleoliad o amgylch y strwythurau cysylltiedig hyn. Caiff cychod bach o fasn yr harbwr cyfagos eu pwyso yn erbyn waliau'r odyn galch a'u storio ynddi. Cafodd The Weigh House ei ddylunio'n fwriadol i gyd-fynd â'r treflun a oedd yn bodoli, sydd i'w weld yn amlwg yn yr AG fel cynllun pwrpasol tebyg i grid gydag adeiladau'n dangos undod pensaernïol a chysondeb o ran eu golwg a'r deunyddiau a ddewiswyd. Mae arwyddocâd The Weigh House yn deillio o'r gwerthoedd disgrifiedig hyn ac mae ganddo gysylltiad swyddogaethol â'r gorffennol sy'n parhau i fod yn amlwg. Felly, mae gan The Weigh House werth tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol gan fod yr holl nodweddion hyn yn amlwg, a'r cysylltiad â'r AG gyfagos sy'n arddangos y nodweddion esthetig hyn ar raddfa fwy. Mae safle ynys yr apêl yn brin o adeiladau ac eithrio arwydd, lamp stryd, pyst pren a bwrdd picnic, ac mae'n gymharol agored ar bob ochr gyda'r lefel yn disgyn i'r ffyrdd cyfagos, ac mae llwyni wedi'u plannu ar ei ymylon.

10. Mae'n debygol nad yw lleoliad y safle ynys, a ffurfiwyd gan gynllun y ffordd sy'n rhoi mynediad i'r maes parcio i'r gogledd, yn ymddangos fel y'i cynlluniwyd pan adeiladwyd The Weigh House, ond byddwn yn cytuno â sylwadau Cadw fod lleoliad yr ynys mewn man ar wahân yn gwarchod The Weigh House rhag yr adeiladau domestig a morol mwy o faint sy'n gorwedd i'r de, i'r gorllewin ac i'r gogledd iddo. Mae ardal fechan yr ynys a'i lleoliad agored yn elfennau sy'n cyfrannu at y profiad, y gwerthfawrogiad a'r ddealltwriaeth o The Weigh House a strwythur cysylltiedig yr odyn galch. Gyda'i gilydd, mae elfennau hyn y lleoliad yn cyfrannu'n sylweddol at arwyddocâd The Weigh House fel ased hanesyddol.

11. Mae The Weigh House yn adeilad ar raddfa fach, ond gyda nodweddion pensaernïol sy'n bodoli yn yr AG. Mae'r datblygiad a gynigir yn fwy o faint, gyda tho talcennog allwthiol sy'n creu to hir gogwyddol ar y wedd dde-orllewinol. Byddai dyluniad talcennog y to yn adlewyrchu to The Weigh House, a byddai'r defnydd o estyll cedrwydd du i orchuddio waliau allanol yr adeilad arfaethedig yn adlewyrchu'r patrwm ar do The Weigh House. Fodd bynnag, byddai'r datblygiad a gynigir yn defnyddio cladin sinc rhosliw ar do'r adeilad.

12. Byddai'r datblygiad a gynigir, oherwydd ei ddyluniad cyfoes, ei faint, ei raddfa a'i leoliad, yn lleihau gosodiad The Weigh House, gan amharu ar ei arwyddocâd, oherwydd y byddai'n weladwy'r holl ffordd o amgylch yr ynys gan ddominyddu'r olygfa ar draul The Weigh House gan leihau ei werth o fewn ei leoliad ar wahân. Byddai'r cynnig, oherwydd ei ffurf fwy o faint a'i orffeniad modern o gladin sinc, yn amharu'n sylweddol ar arwyddocâd The Weigh House, gan niweidio'r ffordd y mae'r adeilad rhestredig hwn yn cael ei ddeall, ei brofi a'i werthfawrogi ar hyn o bryd. Mae The Weigh House yn weladwy o Quay Parade, a byddai ffurf ormesol y datblygiad a gynigir, wedi'i leoli y tu ôl iddo yn yr olygfa hon, yn arwain at ostwng arwyddocâd yr ased treftadaeth. Byddai dyluniad anghymesur y to a deunyddiau modern yr adeilad yn mynd yn groes i olwg gyffredinol dyluniad y to a'r deunyddiau a geir yn The Weigh House, ac yn groes i gyd-destun yr amgylchedd adeiledig o'i amgylch.

13. Felly, cytunaf â barn y Cyngor a Cadw ar y cynnig hwn. Rwyf o'r farn y byddai'r datblygiad a gynigir yn gwrthdaro â'r Ddeddf, PCC, TAN 24 a Lleoliad Asedau Hanesyddol. Byddai'r datblygiad a gynigir yn effeithio'n andwyol ar leoliad adeiladau rhestredig cyfagos ar draul eu harwyddocâd, ac yn arbennig ar leoliad ac arwyddocâd The Weigh House.

*Cymeriad ac Ymddangosiad/Ardal Gadwraeth*

14. Mae'r ardal yn union i'r de-ddwyrain o safle'r apêl yn cynnwys yr AG a nodweddir gan lawer o adeiladau cyfnod hanesyddol nodedig sydd â chymeriad treflun diffiniol ar gynllun tebyg i grid gydag adeiladau sy'n dangos undod pensaernïol a chysondeb o ran ymddangosiad, deunyddiau, a gorffeniadau lliwgar wedi'u canoli o amgylch ceiau a phierau'r harbwr, a ffyrdd cynharach. Gyda'i gilydd, mae'r adeiladau hyn wedi'u trefnu ar sgwariau teras yn wynebu'r harbwr, ac mae rhai mannau gwyrdd yn rhoi cydlyniad o ran ymddangosiad pensaernïol, arddull a deunyddiau, ac undod cyffredinol. Mae'r nodweddion hyn yn yr amgylchedd adeiledig a'r gofodau rhwng yr adeiladau o amgylch yr harbwr, yr afon, a mannau gwyrdd agored fel Sgwâr Alban, yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac ymddangosiad yr AG, ac at ei harwyddocâd fel ased treftadaeth.

15. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu ymddangosiad Ardaloedd Cadwraeth. Mae PCC yn nodi y bydd rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a fyddai'n niweidio cymeriad neu ymddangosiad yr AG neu ei lleoliad. Mae lleoliad yn gallu ymestyn y tu hwnt i gwrtil ased, fel y mae Lleoliad Asedau Hanesyddol yn nodi.

16. Mae TAN 24 yn cyfeirio at ddynodiad ardal gadwraeth sy'n darparu'r sail ar gyfer polisïau a luniwyd i gadw neu wella'r holl agweddau ar gymeriad neu ymddangosiad sy'n diffinio diddordeb arbennig ardal. Gallai hyn gynnwys y patrwm anheddu a threfniadaeth gofod a llwybrau yn ogystal ag arddull a mathau'r adeiladau, a'r defnydd o ddeunyddiau a manylion. Mae Polisi DM06 (Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel) yng Nghynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 (CDLl) yn nodi y dylid ystyried a yw safle wedi'i leoli o fewn neu'n agos at ardal gadwraeth, ac mae polisi DM07 y CDLl yn cyfeirio at roi sylw i ganllawiau cenedlaethol wrth ystyried datblygiadau.

17. Er bod y safle y tu allan i'r AG, mae polisi cynllunio ers tro wedi sefydlu perthnasedd Ardaloedd Cadwraeth i gynlluniau y tu allan i'w ffiniau. Mae safle'r apêl yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i leoliad yr AG oherwydd golygfeydd o'r safle o gyfeiriad yr AG ac i'r gwrthwyneb, yn bennaf wrth edrych ar draws yr harbwr o Quay Parade ac o Harbour Lane. Er bod datblygiadau diweddar siediau storio o amgylch y maes parcio a Chlwb Hwylio Aberaeron i'w gweld mewn rhai golygfeydd, nid yw'r rhain mor amlwg o'r AG oherwydd eu lleoliad. Nid yw'r datblygiadau hyn mor agored ac amlwg â'r olygfa o safle'r apêl o rai mannau o fewn yr AG. Gan gofio fy nghanfyddiadau ar y prif fater cyntaf, mae'n rhaid dilyn y byddai'r cynnig yn niweidiol i gymeriad hanesyddol ac ymddangosiad yr AG a'i harwyddocâd fel ased treftadaeth. Byddai'r cynnig yn methu diogelu lleoliad yr AG gyfagos.

18. Nodaf fod cyflwyniadau'r apelydd yn dweud y byddai'r cynnig yn hybu mwy o werthfawrogiad tuag at adeilad rhestredig The Weigh House a'r AG yn gyffredinol, oherwydd mae'n cynnwys man eistedd cymunedol, ac o bosibl, man chwarae i blant ar y safle ynys. Fodd bynnag, er bod budd cymunedol i elfen hon y dyluniad, nid yw'n gorbwyso'r niwed i osodiad yr adeilad rhestredig fel rwyf wedi'i nodi uchod. Hefyd, rwyf wedi nodi'r feirniadaeth mewn perthynas ag effaith Swyddfa'r Harbwrfeistr ar adeiladau rhestredig cyfagos. Nid oes gennyf unrhyw wybodaeth yn ymwneud â hanes y safle hwn a'i gyd-destun cynllunio, ond nid yw hyn yn newid fy asesiad o ddatblygiad yr apêl mewn perthynas â mater y lleoliad, ac nid yw'n cyfiawnhau'r datblygiad a gynigir, a fyddai'n cael ei weld mewn cyd-destun gwahanol o ran gwerthoedd arwyddocâd a lleoliad, fel yr amlinellaf uchod.

19. Yn ogystal, mae'r safle o fewn yr Ardal Tirwedd Arbennig (ATA). Nid wyf o'r farn y byddai datblygu'r safle yn erydu priodweddau'r ATA gan fod y dynodiad ATA yn cwmpasu ardal fawr ac nid yw'n atal neu'n gwahardd datblygiadau. Fodd bynnag, rwyf o'r farn na fyddai'r datblygiad a gynigir yn rhoi sylw dyledus i natur arbennig yr amgylchedd adeiledig oherwydd ei ffurf, ei ddyluniad, a'i ddeunyddiau, fel yr amlinellir uchod yn yr asesiad o leoliad yr adeilad rhestredig. Er nad yw'n groes i Bolisi DM18 y CDLl (Ardaloedd Tirwedd Arbennig), rwyf o'r farn bod y cynnig yn mynd yn groes i'r Ddeddf mewn perthynas â lleoliad yr AG, TAN 24, Lleoliad Asedau Hanesyddol, a meini prawf 1 a 2 Polisi DM06 y CDLl (Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel).

20. Deuaf i'r casgliad y byddai'r datblygiad a gynigir yn niweidio cymeriad ac ymddangosiad yr ardal, ac yn niweidio lleoliad yr AG gyfagos.

**Casgliadau**

21. Wrth wneud fy mhenderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adran 3 ac adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ystyriaf fod y penderfyniad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

22. Am y rhesymau a amlinellaf, ac ar ôl ystyried yr holl faterion a godwyd, deuaf i'r casgliad y dylid gwrthod yr apêl.

Cyf: CAS-02396-K1Z5R3

*Iwan Lloyd* AROLYGYDD

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# Penderfyniad Apêl

gan [NAME]

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad y penderfyniad: 12/12/2023

Cyfeirnod yr apêl: CAS-02740-B1K5J5

Cyfeiriad y safle: Tŷ Gwyn, Cei Bach, Ceinewydd, Ceredigion, SA45 9SL

---

- Cyflwynir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Cyflwynir yr apêl gan Mr Paul Christopher yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion.
- Gwrthodwyd y cais, Cyf. A220031, dyddiedig 7 Ionawr 2022, trwy hysbysiad dyddiedig 4 Ionawr 2023.
- Y datblygiad a gynigir yw 1 cwt bugail.
- Cynhaliwyd ymweliad safle ar 21 Tachwedd 2023.

---

## Penderfyniad

1. Gwrthodir yr apêl.

## Mater Gweithdrefnol

2. Mae'n amlwg o'r cyflwyniadau a'm hymweliad safle bod y datblygiad eisoes wedi digwydd. Fel y cyfryw, rwyf wedi penderfynu ar yr apêl ar y sail ei bod yn ceisio caniatâd ôl-weithredol o dan delerau Adran 73(A)(2)(a) Deddf 1990.

## Y Prif Fater

3. Y prif fater yw p'un a yw'r cynnig yn darparu safle priodol ar gyfer llety gwyliau o ystyried polisïau cynllunio sy'n ymwneud â lleoliad datblygiad o'r fath.

## Rhesymau

4. Mae'r cwt bugail dan sylw wedi'i leoli ar lain fach o dir y tu blaen i annedd Tŷ Gwyn a gerllaw'r dreif mynediad sy'n ei gwasanaethu. Mae safle carafannau wedi'i leoli pellter byr i'r de-orllewin ac mae nifer o anheddau a safleoedd carafannau eraill yn y cyffiniau. Er hynny, mae gan yr ardal gymeriad gwledig ac mae datblygiad yn wasgaredig ac wedi'i wahanu gan lystyfiant aeddfed. Er nad oedd gennyf fynediad i'r tu mewn i'r cwt, mae'r dystiolaeth sydd ger fy mron yn awgrymu bod ganddo'r holl gyfleusterau i'w alluogi i gael ei feddiannu'n annibynnol.

5. Mae'r safle wedi'i leoli y tu allan i ardaloedd anheddu a ddiffinnir yng Nghynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Ceredigion (y CDLl). Mae o fewn ardal a ddiffinnir fel yr ardal arfordirol lle mae datblygiadau tai'n cael eu hystyried yn erbyn polisi S04 sy'n ymwneud â

datblygiad mewn aneddiadau cysylltiedig a lleoliadau eraill. Gan fod y safle o fewn "lleoliad arall" at ddibenion y polisi, caniateir datblygiad tai mewn amgylchiadau eithriadol yn unig i fodloni anghenion tai fforddiadwy heb eu bodloni neu ar gyfer anheddau menter wledig. Ni wnaed achos dros y naill na'r llall. Nid yw annedd ddirwystr yn cydymffurfio â pholisi S04 y CDLl.

6. Achos yr apelydd yw bod y cwt yn cael ei ddefnyddio fel llety gwyliau eilaidd i'r prif dŷ, sef Tŷ Gwyn, a ddefnyddir fel llety gwyliau, hefyd. Er bod yr apelydd yn datgan bod cwt bugail yn wahanol i fathau eraill o lety gwyliau, rwyf yn fodlon ei fod yn dod o fewn yr un categori datblygiad â charafannau, cabanau neu gabanau gwyliau.

7. Fel y cyfryw, mae polisi LU14 sy'n ymwneud â datblygiad twristiaeth yn berthnasol. O dan y polisi, ni chaniateir unrhyw unedau ychwanegol yn ymwneud â charafannau sefydlog, carafannau teithio, cabanau a chabanau gwyliau yn yr ardal arfordirol. Y cyfiawnhad rhesymedig dros y polisi yw bod llawer o lety o'r fath yn yr ardal arfordirol eisoes a'i fod yn cael effaith sylweddol ar y dirwedd. Er bod Cymru'r Dyfodol yn darparu'r fframwaith polisi cenedlaethol ac yn ôl-ddyddio'r CDLl, mae polisi LU14 yn cyd-fynd â'i gefnogaeth i ddatblygiad twristiaeth mewn lleoliadau priodol, fel y'u diffinnir mewn CDLlau.

8. Mae'r cwt yn uned llety gwyliau ychwanegol yng nghefn gwlad. Er ei fod ar raddfa gymharol fach, o ddyluniad amaethyddol ac wedi'i leoli gerllaw safle carafannau, ac o ystyried datblygiad arall yn y cyffiniau, mae'n ychwanegu datblygiad gwasgaredig a digyfiawnhad arall y tu allan i ardal anheddu. Er gwaethaf honiad yr apelydd i'r gwrthwyneb, o ystyried bod angen cerdded am 20 munud i gyrraedd y bws, a bod y safle wedi'i leoli i ffwrdd oddi wrth y pentref, nid wyf o'r farn bod y lleoliad yn un cynaliadwy. Credaf ei bod yn debygol iawn y byddai meddianwyr yn defnyddio ceir preifat i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau yn yr ardal amgylchynol.

9. Nodaf honiad yr apelydd mai anaml y mae'r brif annedd yn cael ei meddiannu'n llawn ac felly nad yw ychwanegu'r cwt yn cael effaith ychwanegol ar yr amgylchoedd na gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, mae'r cwt yn adeilad ar wahân i'r annedd ac yn cael ei feddiannu'n annibynnol arni. Gellir meddiannu'r annedd a'r cwt ar eu capasiti llawn, a bydd defnydd annibynnol ar y ddau'n cynhyrchu gweithgarwch a symudiadau cerbydol ychwanegol. Er y gallai'r gwesteion ddarparu ychydig o incwm ychwanegol ar gyfer gwasanaethau ac amwynderau lleol, bydd hyn yn fach iawn.

10. Mae'n ofynnol i benderfyniadau gael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau eraill perthnasol yn awgrymu fel arall. Yn yr achos hwn, nid wyf wedi canfod bod unrhyw ystyriaethau eraill o'r fath sy'n gwrthbwyso'r niwed sy'n codi yn sgil caniatáu'r datblygiad hwn. Byddai'n niweidiol i'r ymagwedd a fabwysiadwyd at ddarparu llety twristiaeth ychwanegol. Fel y cyfryw, nid yw'r safle'n darparu lleoliad priodol ar gyfer llety gwyliau o ystyried polisïau cynllunio sy'n ymwneud â lleoliad datblygiad o'r fath.

**Casgliad**

11. Rwyf wedi ystyried yr holl faterion eraill, gan gynnwys honiad yr apelydd bod y cwt yn cynnig profiad gwyliau gwahanol i lety arall a'r cyfeiriad at ddatblygiadau eraill tebyg y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt. Nid oes gennyf fanylion llawn yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r achosion hynny, ond rwyf wedi dod i'm penderfyniad ar sail rhinweddau unigol y cynnig penodol sydd ger fy mron. Nid wyf o'r farn bod darparu cwt bugail fel llety gwyliau yn sylweddol wahanol i fathau eraill o garafannau, cabanau a chabanau gwyliau sy'n cynnig yr un profiad gwyliau neu brofiad gwyliau tebyg. Am y rhesymau uchod, gwrthodaf yr apêl.

12. Wrth ddod i'm penderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adrannau 3 a 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'). Rwyf o'r farn bod y penderfyniad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

*VK Hirst*

AROLYGYDD

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru
Planning & Environment Decisions Wales

# Penderfyniad Apêl

gan Richard James BSc (Anrh) MSc MRTPI
Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru

Dyddiad y penderfyniad: 21.12.2023

Cyfeirnod yr apêl: CAS-02693-L5G4X5

Cyfeiriad y safle: Brynhawel, Llaingarreglwyd, Llannarth, Ceredigion, SA47 0QA

---

- Cyflwynir yr apêl o dan adran 78 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn erbyn gwrthod rhoi caniatâd cynllunio.
- Cyflwynir yr apêl gan Mr Clive Scragg yn erbyn penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion.
- Gwrthodwyd y cais, Cyf. A220077, dyddiedig 31 Ionawr 2022, trwy hysbysiad dyddiedig 30 Ionawr 2023.
- Y datblygiad a gynigir yw dymchwel bwthyn presennol ac adeiladu annedd gyfnewid. Adleoli garej/storfa bresennol, gwell mynedfa a pharcio ar gyfer Isfryn a symud siediau a storfeydd atodol ymaith.
- Cynhaliwyd ymweliad safle ar 21 Tachwedd 2023.

---

### Penderfyniad

1. Gwrthodir yr apêl.

### Mater Gweithdrefnol

2. Er mwyn bod yn gryno, rwyf wedi cymryd y disgrifiad o'r datblygiad o'r Ffurflen Apêl a Hysbysiad o Benderfyniad y Cyngor.

### Y Prif Fater

3. Y prif fater yw effaith y cynnig ar gymeriad a golwg yr ardal.

### Rhesymau

4. Mae safle'r apêl yn cynnwys bwthyn clom unllawr ar wahân â dwy ystafell wely o faint cymedrol iawn, sydd mewn cyflwr adfeiliedig ar hyn o bryd. Mae'n ffurfio rhan o ffryntiad preswyl datblygedig Llaingarreglwyd, sy'n cynnwys grŵp llinol bach o anheddau â chaeau a chefn gwlad agored o'u hamgylch. Yn wir, at ddibenion hierarchaeth aneddiadau Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Ceredigion, mae safle'r apêl mewn 'lleoliad arall' sy'n gefn gwlad agored yn bennaf. Nid oes ffin anheddu ddiffiniedig, ac mae gan yr ardal gymeriad gwledig cryf. Mae'r bwthyn yn wynebu ymyl y ffordd ac mae'n cyffinio â phâr o dai un talcen o olwg a ffurf syml i'r dwyrain ac anheddau cymedrol eraill i'r gorllewin. Ynghyd â'r annedd bresennol ar safle'r apêl, mae gan y rhain effaith weledol dawel sy'n gymesur â chymeriad gwledig cyffredinol eu lleoliad.

5. Byddai'r annedd gyfnewid arfaethedig wedi'i gosod yn ganolog o fewn safle'r apêl mewn lleoliad onglog o ymyl y ffordd. Byddai'n un llawr a hanner o uchder gyda thalcendo, talcen cerrig blaen a fyddai'n cynnwys sgrin apig wydrog, ffenestr ddormer drionglog yn y blaen a tho canopi ar oleddf. Byddai'r adeiladau allan presennol yn cael eu hamnewid â

garej ar wahân newydd, wedi'i lleoli yng nghornel flaen safle'r apêl. Byddai mynedfa ac ardal barcio Isfryn yn cael eu lledu yn rhan o'r cynnig, hefyd.

6. Mae Polisi LU08 y CDLl yn ymwneud ag anheddau cyfnewid ac mae'r partïon yn cytuno y byddai'r cynnig yn cydymffurfio â meini prawf 1 a 3. Yng nghyd-destun y polisi hwnnw, nid oes unrhyw beth ychwaith i awgrymu bod gan yr annedd bresennol arwyddocâd lleol yn weledol, yn ddiwylliannol nac yn hanesyddol. Yn wir, nid yw'r Cyngor yn gwrthwynebu ei dymchwel, ac nid oes gennyf reswm i anghytuno. Mae maen prawf 2i yn datgan y dylai cynigion i amnewid anheddau presennol gael eu lleoli o fewn neu gerllaw ôl troed yr annedd wreiddiol ac adlewyrchu ffurf, crynswth a maint yr annedd wreiddiol oni bai bod manteision cynllunio amlwg yn gysylltiedig â gwyro oddi wrth y lleoliad, y safle neu'r maint gwreiddiol. Mae testun ategol Polisi LU08 yn egluro bod cynigion yn aml yn cynnwys annedd gyfnewid sy'n fwy na'r annedd flaenorol ac sydd felly'n lleihau'r cyflenwad o anheddau llai yn yr ardal honno. Yn yr achos hwn, fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn darparu tystiolaeth y byddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar amrywiaeth y stoc dai yn y Sir neu'r ardal leol. O ystyried bod yr annedd bresennol yn fach iawn gyda lle llawr mewnol cyfyngedig iawn ar gyfer llety teulu modern, a bod safle'r apêl yn ffurfio llain fewnlenwi o fewn ffryntiad ffordd sydd eisoes wedi'i ddatblygu, ystyriaf fod lle ar gyfer annedd fwy na honno sy'n bodoli. Er hynny, mae safle'r apêl mewn lleoliad gwledig sensitif lle mae datblygiad newydd yn cael ei reoli'n llym. Yn hyn o beth, mae maen prawf 2ii Polisi LU08 yn dweud y dylai anheddau cyfnewid barchu neu wella dyluniad eiddo amgylchynol a'r ardal. Mae Polisi DM06 hefyd yn dadlau dros ddyluniad o ansawdd uchel ac, ymhlith pethau eraill, mae'n dweud y dylai datblygiad roi ystyriaeth lawn i'w leoliad a gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyd-destun y lleoliad hwnnw. Yng nghefn gwlad, mae aneddiadau bach gwasgaredig fel Llaingarreglwyd yn rhan annatod o'r dirwedd wledig. Er bod y cynnig yn ymwneud â llain fewnlenwi, mae Polisi DM17 yn ceisio atal effeithiau niweidiol arwyddocaol ar nodweddion cyffredinol y dirwedd ac mae'n berthnasol yn yr achos hwn.

7. Byddai'r cynnig, er ei fod yn gorgyffwrdd ag ôl troed y bwthyn, yn dyblu ei arwynebedd yn fras, gyda lleoliad, ffurf to ac arddull ffenestri gwahanol hefyd. Byddai llawer o ôl troed ychwanegol y cynnig a'r nodweddion gwahanol hyn i'w gweld yn amlwg o'r ffryntiad sy'n wynebu'r cyhoedd trwy gyfrwng y to uwch a'r brif wedd fwy llydan. Ni fyddai cyflwyno talcendoeon yn lleihau maint sylweddol estynedig y brif wedd yn effeithiol. Byddai'r rhan canopi ar oleddf yn y blaen, er ei bod yn cynnwys nodwedd draddodiadol ac yn aros islaw uchder bondo'r bwthyn, yn ymddangos fel elfen atodol i olwg ffryntiad mwy eang y cynnig. At hynny, byddai sgrin apig dalcen fawr y cynnig yn nodwedd arbennig o amlwg a gwyrol ar y brif wedd, a fyddai'n groes i feintiau ffenestri cymedrol ffryntiadau'r anheddau cymdogol. Fel y cyfryw, er gwaethaf presenoldeb anheddau mwy o faint yn yr ardal a'r deunyddiau allanol tebyg a gynigir, ni fyddai'r annedd gyfnewid yn parchu dyluniad eiddo amgylchynol a'r ardal. Mae'r cynnig wedi ceisio ymgorffori nodweddion ffenestri a ddefnyddir mewn mannau eraill, a tho estynedig y bwriedir iddo adlewyrchu graddfa 'bwthyn'. Er hynny, byddai'r cyfuniad o'r nodweddion hyn yn arwain at annedd o ddyluniad digyswllt. O ganlyniad i'w leoliad a'i ddyluniad, byddai'r cynnig yn cyflwyno math o ddatblygiad sy'n sylweddol fwy cymhleth yn weledol na fyddai'n parchu patrwm llinol a chymeriad cymedrol anheddau cymdogol. Felly, byddai'n cael effaith drefoli niweidiol ar gymeriad a golwg gwledig ei ardal uniongyrchol. Er gwaethaf ei natur fewnlenwi, byddai'r cynnig yn nodwedd sy'n amharu'n weledol ar y pentrefan gwledig hwn ac felly byddai'n niweidio cyfraniad cadarnhaol y pentrefan at y dirwedd wledig ddeniadol.

8. Prin yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd i ddangos y byddai'r cynnig yn arwain at fuddion sylweddol i ddiogelwch ar y priffyrdd neu'n gwella bioamrywiaeth i raddau a fyddai'n mynd y tu hwnt i ofynion polisi cynllunio arferol. Ni ddangoswyd yn ddigonol ychwaith y

byddai dyluniad ffenestri mwy adlewyrchol yn methu bodloni Rheoliadau Adeiladu. Yn ogystal, mae cynlluniau eraill a gymeradwywyd gan y Cyngor yn annhebygol o rannu'r un amgylchiadau â chynnig yr apêl, yr wyf wedi penderfynu arni ar sail ei rhinweddau ei hun. Fel y cyfryw, ni welaf unrhyw beth o sylwedd i gyfiawnhau'r niwed a amlygwyd uchod.

9. Deuaf i'r casgliad y byddai'r cynnig yn niweidiol i gymeriad a golwg yr ardal, yn groes i Bolisïau LU08, DM06 a DM17 y CDLl.

**Materion Eraill**

10. Nodaf adroddiad y peirianwyr sy'n amlygu cyflwr strwythurol peryglus iawn yr adeilad presennol. Er hynny, nid oes angen caniatâd cynllunio o reidrwydd i wneud yr adeilad yn ddiogel. Rwyf hefyd wedi ystyried gofynion yr apelydd i letya teulu sy'n ymweld. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth mai cynnig yr apêl yw'r unig fodd realistig o sicrhau'r buddion a nodwyd, a byddai'r niwed a amlygwyd gennyf yn sylweddol. O ganlyniad, byddai'n gymesur gwrthod rhoi caniatâd cynllunio yn yr amgylchiadau. Mae'r ffaith y byddai'r cynnig yn darparu lle amwynder digonol ar gyfer ei feddianwyr o bwys niwtral.

**Casgliad**

11. Am y rhesymau a roddwyd uchod, ac ar ôl ystyried yr holl faterion eraill a godwyd, deuaf i'r casgliad y dylid gwrthod yr apêl.

12. Wrth ddod i'm penderfyniad, rwyf wedi ystyried gofynion adrannau 3 a 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'). Rwyf o'r farn bod y penderfyniad hwn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf trwy ei gyfraniad tuag at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru.

*Richard James*

AROLYGYDD

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol